

# ECO'R WYDDFA

Rhif 128

MEDI 1987

Pris 20c

## CADAI'R Y GENEDLAETHOL "MISTYR WYN YDY O!"



*Y Prifardd Ieuan Wyn Jones yn ymlacio yn ei gadair. Ar y mur mae Tlws Coffa W.D. Williams a enillodd Englyn gorau'r flwyddyn ym marn darllenwyr 'Barddas.'*

Brynhawn Iau yr Eisteddfod: Miloedd yn y pafiliwn a channoedd wedi hudo i bebyll y cyfryngau ar y maes i wyllo'r seremoni ar y setiau teledu. Y Prifardd Gerallt Lloyd Owen yn traddodi ac yn cadw pawb ar bigau'r drain. Oedd, roedd 'na gadeirio i fod - cadeirio Bardd teilwng iawn. Canodd y corn gwlad a chwiliodd llygad y genedl drwy wyll y pafiliwn. Yna, y closio dramatig ar hyd y llif olau at y ffigwr unig a safai yno - "Mistyr Wyn ydy o!"

Syndod pleserus oedd yn llais y bachgen ym mhabell HTV pan sylweddolodd ei fod yn adnabod yn dda y dyn a lenwai'r sgrîn. Yna y dasg o esbonio ei ebychiad i ddegau o eisteddfodwyr chwylfrydig o'i gwmpas. Cawsant wybod gyda balchder ffaith holl bwysig mai

athro yn Ysgol Gynradd Llanrug yw Mistyr Ieuan Wyn, tua tri munud cyn bod yr Archdderwydd yn cael datgan hynny iddynt yn swyddogol.

Mae'n debyg i rai o blant ysgol Llanrug wrando'n astud iawn ar y manylion personol a gyhoeddir o'r llwyfan yn ystod y seremoni am y bardd newydd. Y borecyntaf yn ôl yn yr ysgol ar ôl y gwyliau, cyfarchodd un ohonynt ei athro adnabyddus, nid gyda'r "llongyfarchiadau" neu "welis i chi" arferol ond yn hytrach, "Dwi'n gwybod faint ydy'ch oed chi rwan." Ni wyddai eraill, hyd nes y profodd y teledu iddynt, "Fod Mistyr Wyn yr un mor dda am sgwennu penillion."

Llongyfarchiadau iddo ar ei gamp arbennig a diolch iddo am roddi cyfle i blant a phobl y fro ymfalchïo a blasu peth o'r llwyddiant yn ei sgîl.

## YR ECO'N HWYR

### Dyna bennawd unigryw

O'r diwedd, ymddangosodd yr Eco, wythnos union yn hwyr - y tro cyntaf i hynny ddigwydd yn hanes eich papur bro. Gwell hwyr na hwyrach meddai'r hen air, a gwell hwyrach na pheidio ymddangs o gwbl medde ninnau!

Torrodd un o beiriannau'r Wasg ar amser tyngefennol ac nid oedd gobaith cael yr Eco o'i wely mewn pryd. Gwnaed pob ymdrech i egluro'r sefyllfa i'r dosbarthwyr. Nid oes cyfle wedi bod chwaith i olygu'r rhannau hynny o'r newyddion sydd bellach, oherwydd yr wythnos ychwanegol yn amherthnasol. Ymddiheurwn am hyn ac am unrhyw anhawsterau a achoswyd i chwi ein cefnogwyr.

## A CORON LLANBED SELWYN YN BEN



Llongyfarchiadau i Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun gipiodd goron arian Eisteddfod Pantyfedwen yn Llanbedrpontsteffan ddiwed Awst. Ei ddilyniant ef o dair cerdd ar y testun 'Y Ffin' a ddyfarnwyd yn orau allan o dair ymgais ar ddeg gan y beirniaid Y Prifeirdd Dic Jones a'r Parch. Rhys Nicholas.

Sonia yn ei gerddi am y cysylltiad agos sydd wedi, ac yn bodoli rhwng glannau Merswy a Gogledd Cymru.

Dywed Selwyn, sydd bellach wedi

ymddeol o fod yn bennaeth ysgol, ei fod yn brysurach nawr nag y bu erioed. Mae'n awdur cyfrol o farddoniaeth a sawl cyfrol o adroddiadau i blant. Mae'n feirniad llên ac adrodd, darlledwr, ymchwilydd, aelod o dîm Talwrn y Beirdd ac hefyd mae'n deithiwr heb ei ail.

Mae wedi ennill 39 o wobrau (cadair neu goron) am farddoni gan gynnwys Cadair Pantyfedwen ym 1978 y mae mor falch o'i harddangos yn y llun uchod.

## CLOD I'R TREFNYDD

Llongyfarchiadau i Elfed Roberts o Lanrug, Trefnydd newydd y Genedlaethol yn y Gogledd. Eisteddfod Bro Madog oedd ei dasg gyntaf a bu'n llwyddiant ysgubol. Bob llwyddiant iddo gyda'r trefniadau sydd eisoes ar y gweill ar gyfer Eisteddfod Llanrwst ym 1989.



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 128  
MEDI**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

### GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,  
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.  
(C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:**  
Amranwen Lynch, Gwyddfor,  
Penisarwaun (Llanberis 870575).

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd  
Evans, Sycharth, Penisarwaun  
(Llanberis 872407)

**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs Olwen  
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.  
(Waunfawr 200)

**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones,  
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).  
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John  
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug  
(C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn  
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,  
Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy  
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,  
Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:**  
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,  
Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl  
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:  
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys  
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts,  
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel,  
(Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glarafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLLEN:** W.O. Williams 6 Rhyd  
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

**DINORWIG:** Mr D.J. Thomas, 8 Maes  
Eilian. (870773)

**LLANBERIS:** Iola Sellers, 13 Dôl  
Elidir, Llanberis.

**LLANRUG:** Mrs Gillian Morris,  
Annedd Wen, Tal-y-bont.  
(Caernarfon 76075)

**NANT PERIS:** Mrs Mary Ff. Roberts,  
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.  
(871327)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,  
Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Megan  
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed  
(Llanberis 870030)

**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir  
Mwyn (Waunfawr 626)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU HYDREF 1af**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS FAWRTH**  
**MEDI 22ain**  
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU



*Annwyl Cyd-Gymry,*

*Mae'n siŵr eich bod chwithau fel  
minnau yn dyheu am weld heddych  
yn teyrnasu yn ein byd. Dileu arfau  
niwcliar. Mwy o gyd-weithredu  
rhwyng y pwerau mawr.  
Ymddiriedaeth rhwyng y Gorllewin a'r  
Dwyrain. Adnoddau ar gael i  
gynorthwyo y trueiniaid hynny sy'n  
byw a marw gan wynebu newyn a  
thlodi yn y gwledydd sy'n datblygu.*

*Yr unig fodd i sicrhau fod y  
freuddwyd yn troi'n ffaith yw trwy  
gefnogi'r mudiad heddych yng  
Nghymru. A gaf fi fod mor hy ag  
awgrymu taw'r peth lleiaf y gellir ei  
wenud dros heddych yng Nghymru  
yw ymuno ag CND Cymru.*

*Y mae Cymru Ddi-niwcliar yn  
ysbrydoliaeth i'r mudiad heddych  
drwy'r byd. Gwahoddaf chwi i  
ymuno gyda ni i greu realiti o'r  
egwyddor honno.*

*Gellir ymaelodi trwy anfon siec o  
£9 ynghyd a'ch enw a'ch cyfeiriad i  
CND Cymru, 2 Plastrton Avenue,  
Caerdydd. CF1 9HH.*

*Y mae eich angen ar y mudiad, ac y  
mae angen y mudiad ar Gymru a'r  
byd.*

*Yn gywir,  
Rhodri Glyn Thomas  
(Cadeirydd CND Cymru)*

## CYNGOR Y DYSGWYR

*Annwyl Olygydd,  
Gwibdaith i'r Bala*

*Hoffwn hysbysu darllenwyr Eco'r  
Wyddfa bod Cyngor y Dysgwyr (Môn  
ac Arfon) yn trefnu trip i'r Bala ar  
ddydd Sadwrn, Medi'r 19eg.*

*M fydd y bws yn codi pobl yn  
Llangefni, Llanfairpwll a Chaernarfon  
ac yn ymweld â llefydd diddorol yn  
ardal Y Bala. Mi fydd cyfle i fynd ar  
trên bach ac i gael te Cymreig yn  
Llanrwst.*

*Mae 'na groeso i ddysgwyr a  
Chymry Cymraeg i fwynhau diwrnod  
i'r teulu i gyd.*

*Yn gywir,  
John Clark*

*13 Y Dôl,  
Bethel,  
Caernarfon.*

## Gwibdaith i'r Bala

**Cyngor y dysgwyr  
Môn ac Arfon**

**Sadwrn, Medi 19eg**

Croeso i ddysgwyr a  
Chymry Cymraeg

am fanylion ffoniwch:  
John Clark  
Y Felinheli 671331  
neu  
Elwyn Huws  
Llanfairpwll 714709

## BEIBL WILIAM MORGAN

Fis Tachwedd eleni bydd yr arwydd  
cyntaf o ddathlu  
pedwarcanmlyddiant cyfieithiad  
yr Esgob William Morgan o'r Beibl  
yn 1588. Dyna pryd y bydd y  
facsimili o Feibl 1588 yn cael ei  
gyhoeddi gan Lyfrgell  
Genedlaethol Cymru. Mae'n  
rhyfedd meddwl er cymaint ein  
parch at yr Esgob na fu'n bosibl hyd  
yn awr inni ddarllen ei gyfieithiad ef  
yn union fel yr ysgrifennodd ef y  
trosiad.

Mae'r ffacsimili'n llyfr hardd ac  
yn gampwaith o argraffu gofalus a  
phan fydd yn ein dwylo gallwn  
ddechrau deall yr ias a deimlodd  
Cymry oes Elisabeth wrth weld y  
Beibl yn Gymraeg am y tro cyntaf.

Pum cant o gopiâu a argraffwyd,  
am £60 yr un. Deallwn fod yn agos i  
400 eisoes wedi'u harchebu a hynny  
fisoedd cyn y dyddiad cyhoeddi -  
argoel dda o frwdfrydedd y dathlu  
ym 1988.

### DATHLU CYFIEITHU'R BEIBL

*Annwyl Olygydd*

*Mae amryw o sefydliadau a  
chymdeithasau'n paratoi i ddathlu  
pedwar canmlyddiant cyfieithu'r  
Beibl i'r Gymraeg y flwyddyn nesaf. Y  
mae'r Pwyllgor Cenedlaethol, sy'n  
ceisio cydweithio â phawb sy'n  
ymgymryd â'r dathlu mewn unrhyw  
fodd, yn awyddus i gasglu  
gwybodaeth am y gweithgareddau  
hyn. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe  
bai unrhyw gorff sy'n trefnu  
gweithgarwch i gofio am yr Esgob  
William Morgan a'i orchest yn anfon  
gair ataf fi, Ysgrifennydd y Pwyllgor  
Dathlu, i'r Llyfrgell Genedlaethol,  
Aberystwyth.*

*Yn gywir,  
Brynley F. Roberts  
Ysgrifennydd y Pwyllgor Dathlu,  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,  
Aberystwyth,  
Dyfed, SY23 3 BU.  
(0970) 3816*

### CWIS RADIO

*Annwyl Gyfaill,*

*Ga'i dynnu'ch sylw at gyfres o'r cwis  
PENNAU BACH fydd yn cael ei  
pharatoi yn ystod yr Hydref.  
Gwyddom fod llawer o'ch darllenwyr  
â diddordeb mewn cystadlaethau  
gwybodaeth cyffredinol, a dyma  
gyfle felly i ymgiprys am dlws Radio  
Cymru yn ystod y gaeaf.*

*Byddwn yn hapus iawn i dderbyn  
ceisiadau am le yn y rowndiau  
cynnar, a hynny gynted ag y bo  
modd, felly danfonwch air yn syth at,  
PENNAU BACH, BBC Radio Cymru,  
32 Heol Alecsandra, Abertawe, SAL  
5DZ.*

*Gyda diloch,  
Helen Owen  
Ymchwilydd*

*Yr eiddoch yn gywir,  
J.M. Griffiths  
Llyfrgellydd y Sir*

## CYFARCHION Y DYSGWYR

*Annwyl Olygydd,*

*Tybed a ga' i dynnu sylw darllenwyr  
eich papur at gyhoeddiad diweddar  
gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd.  
Credaf y bydd yn apelio at ddysgwyr  
yr iaith Gymraeg yn ogystal ag at  
rheiny sy'n ymddiddori mewn  
dysgu'r iaith.*

*Tua dwy flynedd yn ôl trefnodd  
Rhanbarth Aberconwy o Wasanaeth  
Llyfrgell Gwynedd gyfarfod pan fu tri  
dysgwr yn siarad ar eu cymhelliad i  
ddysgu'r Gymraeg. Y tri, neu'r dair a  
bod yn gywir, oedd Carwen Iwan,  
Cymraes ddi-Gymraeg, a  
benderfynodd bod yn rhaid iddi  
fedru'r Gymraeg cyn medru'i galw hi  
ei hun yn Gymraes; Nancy  
Learmonth, Albanes a ymsefydlodd  
ym Mhenmachno ym 1983, a chan ei  
bod, yn ei geiriau ei hun, yn "wraig  
fusneslyd", rhaid oedd iddi fynd ati i  
ddysgu'r iaith er mwyn gweld beth a  
âi ymlaen yn y pentref; Barbra  
Vaterlaws, gwraig o Essex, a  
grwydrodd dipyn o'r byd cyn  
ymsefydlu gyda'i theulu yn  
Negannwy a mynd ati o ddifrif i  
wella'i gwybodaeth o'r iaith.*

*Ymgais oedd y cyfarfod hwn i  
glywed rhai o'r bobl sy'n ymdrechu i  
ddysgu'r Gymraeg yn cael cyfle i  
siarad yn gyhoeddus yn eu "hiaith  
newydd".*

*Gymaint oedd llwyddiant y noson  
hon, nes i'r penderfyniad gael ei  
wneud i gynnal noson arall debyg  
ymhen y flwyddyn.*

*Cafwyd pedwar dysgwr y tro hwn, i  
siarad am y profiadau gwerthfawr a  
gawsant wrth ddysgu. Cynhwysai'r  
siaradwyr hyn ddwy eneth ysgol:  
Alex Borders, o Brestatyn, a ddaeth  
i'r amlwg wrth ennill Medal  
Lenyddiaeth y Dysgwyr yn  
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn  
Nyffryn Ogwen mis Mai llynedd; a  
Sema Morgan, a ddechreuodd  
ddysgu'r Gymraeg ar ôl symud i'r  
cylch i fyw tua chwe mlynedd yn ôl. Y  
ddau arall oedd, fel y mae'n digwydd,  
dau athro ysgol yn Llandudno: Tony  
Greenwood, brodor o Lundain, a  
symudodd ym 1974 i Gymru i fyw, a  
phriodi Cymraes; ac Avril Price, o  
Brighton, ddaeth yn athrawes i  
Llandudno yn y 70au.*

*Mynegodd nifer a oedd yn  
bresennol yn y ddau gyfarfod eu  
hapusrwydd o weld llewyrch ar  
ymdrechion dysgwyr y Gymraeg, yn  
ogystal a'u dymuniad i weld y  
sgysiaid yn ymddangos mewn print,  
ac aeth Gwasanaeth Llyfrgell  
Gwynedd ati, felly, i'w hargraffu. Y  
canlyniad ydy'r llyfryn bach  
"Cyfarchion y Dysgwyr", a ddylai fod  
ar gael yn eich siop lyfrau Cymraeg  
leol neu trwy unrhyw un o  
lyfrgelloedd Gwynedd. Ei bris yw 75c  
(a 20c cludiant) i'w yrru gyda'r  
archeb. Gwneler sieciau yn daladwy i  
-Cyngor Sir Gwynedd.*

*Gobeithiaf y cewch fudd mawr o'i  
ddarllen a dysgu am lwyddiannau a  
phroblemau dysgwyr eraill, a chael  
eich symbylu i barhau i ddysgu.*

*Gyda dymuniadau gorau i'ch  
papur,*

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Gwahoddir ceisiasau oddi wrth bersonau cymwys  
sydd â diddordeb mewn cynrychioli Ward Ceunant  
ar y Cyngor uchod.

Dylai rhai sydd â diddordeb wneud cais  
ysgrifenedig i Glerc y Cyngor erbyn Medi 25, 1987

**G. Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug**



## GALW DDOE I GOF

Pytiau o atgofion plentyndod y diweddar Edith Michael sydd yma — yn union fel yr adroddodd nhw i'w merch Mrs Mem Pritchard, Stryd y Capel, Caernarfon. Symudodd teulu Mrs Michael o Ddeiniolen i Fethel ar ddechrau'r ganrif pan oedd yn ifanc iawn. Yna yn ystod y dauddegau symudodd i 12 Stryd yr Wyddfa, Caernarfon lle treuliodd weddill ei hoes.

Mi'r oedd pethau yn wahanol iawn ers talwm, a dyma ychydig o hanesion bach, sydd yn dangos fel yr oedd hi.

Pan oeddwn i yn saith oed yr oedd yn rhaid i ni fadal o Ddinorwig dros y mynydd i Fynydd Llandegai i fyw, am fod fy nhad yn methu cael gwaith. Mi'r ydwi'n cofio yn iawn cerdded dros y mynydd tu ôl i'r cart yn gwneud twrw mawr ar y lôn gerrig, a hithau yn ddiwrnod braf iawn yng nghanol yr haf. Cerddwn i tu ôl i'r cart — Joni fy mrawd yn un llaw a Nel fy chwaer yn llall a mam hefo Annie fy chwaer yn fabi mewn siôl. Ar dop y llwyth yn y cart oedd cadair freichiau fy nhad a'i choesau i fyny yn yr awyr rhwng y rhaffau, ac yn ysgwyd fel carcharor yn ceisio dianc.

Rydw i yn cofio diwrnod poeth arall yn yr haf a finnau wedi gwylltio yn methu cael sglein i'm plesio ar fy sgidiau hefo'r 'black lead' oedd mam yn arfar ddefnyddio i llnau y grât. Wel, mi'r oeddant yn sgleinio gymaint pan es i allan i'r haul nes oeddwn i bron yn methu edrych arnynt.

Mi oeddwn i yn teimlo yn bwysig iawn y diwrnod hwnnw.

Doedd taid a nain ddim yn medru ysgrifennu gair. Fedra taid ddim darllen chwaith, ond mi oedd nain wedi dysgu darllen yn yr Ysgol Sul. Ond fedra nain ddim ysgrifennu ei henw, ac os oeddeisiau ei henw ar rhyw bapur mi oedd yngorffod rhoi croes. Mi fydda hi yn dweud pan oedd hi yn hogan nad oedd rhaid i neb fynd i'r ysgol, os oeddant heb geiniog i dalu am y gwersi.

Mi oedd nain yn rhyfedd iawn yn dweud y drefn am bobol y Capel, a prin iawn wna hi edrych ar run ohonynt ar y Sul. Mi Mi fydda ni yn mynd i fyny i Eglwys Saron o waelod Bethel ac yn cyfarfod pobol yn mynd i lawr i Capel Bethel, a mi fydda nain yn pasio mor sych fel tasa nhw y pechaduriaid mwyaf. Mi oeddwn i yn ffrindiau mawr hefo'r hen Tomos Huws oedd yn canu cloch Eglwys Saron, a mi fyddai yn dweud hanes mam yn hogan bach wrtha i.

Yn mynydd Llandegai oeddant ni yn byw pan oeddwn i yn crio hefo fanodd rhyw dro. Dyma fy nhad adra o'r chwarel, a dyma fo yn gafael ynof a'n rhoi i eistedd ar gadair tu allan i'r drws cefn, bu'n rhaid i mi agor fy ngheg a dangos y daint oedd yn brifo. Gafaelodd fy nhad yn y daint hefo'r efail bedoli, a thynnu nes y daeth y daint i ffwrdd. Mi'r oedd na bump o steps llechi i lawr o'r drws cefn a phan ddaeth y daint allan, mi syrthiodd fy nhad i

lawr y steps.


Pan oeddwn i yn byw yn y Mynydd, mi rydw i yn cofio mam dweud fod pobol i ffwrdd wedi gwneud llong mor fawr nes oedd hi fel plas. "Mae na fandarni, ibobol cael dawnsio" medda mam "A does na ddim peryg iddi suddo". Wel, y 'Titanic' oedd y llong ac mae pawb yn gwybod be ddigwyddodd i honno. Y capten am fynd i America yn gynt na neb arall, ac yn taro tamed o rew gymaint â thŷ, a'r llong yn suddo i waelod y môr mewn ychydig bach o amser, a channoedd yn bodd.

Y nos Sul wedyn roeddwn i a Neli fy ffrind a'r plant eraill yn yr Eglwys, yn penlinio ar lawr yn ymyl yr harmonium. Mi oedd Mr Morgan y Ficar yn gweddio dros y bobol a'r plant oedd wedi bodd, a'r Eglwys bach yn orlawn ac yn ddistaw bach "Mae dy fam yn crio". Dyma fi yn troi ac yn edrych ac yn gweld mam Neli yn crio hefyd, a dyma ni yn edrych o amgylch ac mi oedd y bobol i gyd yn crio, a dagrau yn gwlychu wyneb Mr Morgan y Ficar. Dyna beth wna i byth anghofio, pawb yn crio yn yr Eglwys bach ar ben y mynydd, wrth feddwl am y 'Titanic' ar bobol ar waelod y môr.

### Magi

Pan oeddwn i yn chwech oed mi es ar fy ngwyliau i dŷ brawd mam yn Bryn Ffynnon Road, Y Felinheli. Yn y tŷ drws nesaf iddo mi oedd 'na wraig weddw a'i phlant yn byw, Mrs Huws, ac mi oedd na hogan tua pedair-ar-ddeg oed a'i henw hi oedd Magi. Wel, mi'r oedd y tŷ yn dlawd iawn — llawr coed noeth a dim ond pethau oedd yn rhaid i'w cael. Roedd Magi druan yn arw am swancio ac wedi bod yn swnian yn hir ar ei mam i brynu piano. Mi gafodd Mrs Huws biano o rywle

## YFORY?



Rhan o Crawia, Llanrug — safle'r datblygiad newydd?

Yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn bu nifer o wahanol straeon ar led yn ardal Llanrug, ac yn enwedig yn y Crawia ynglŷn â datblygiadau arfaethedig ar fferm Bryn Afon. Ar y seithfed ar hugain o Awst, derbyniodd yr Eco y datganiad canlynol i'r Wasg. Dyma gyfieithiad llythrennol o'r datganiad:

"Gwŷr busnes lleol yn ardal Llanrug yw Mr Richard Hughes-Jones a'i fab, John, sy'n gallu olrhain eu hachau'n lleol i'r 10ed ganrif.

Maent wedi penderfynu datblygu Ystâd Parc Gwledig yn cynnig lle gwyliau wedi ei wasanaethu â chyfleusterau hamddena i Aelodau ar sail Rhannu-Amser (Time-Share) wedi ei rag-drefnu. Cynigir Aelodaeth Ddi-breswyl Leol i drigolion lleol dilys o fewn Ardal Arfon gya hawl i ddefnyddio'r cyfleusterau hamddena.

Mae'r cynllun yn cael ei ystyried,

ei gynllunio a'i lunio â chymeriad Cymreig pendant a hyd at safon uchel 'Star Rating' ryngwladol. Ym mhob amgylchiad posibl a gwneuthuradwy defnyddir llafur a defnyddiau Cymreig, ac fe fydd yn bolisi gan Mr Hughes-Jones i gyflogi gweithwyr dwy-ieithog pan fydd y cynllun wedi ei gwblhau.

Bydd y Parc Gwledig yn gweithredu gydol y flwyddyn." Gobeithiwn ddod a mwy o wybodaeth am y cynllun, ynghyd â barn rhai o'r trigolion lleol arno yn rhifyn nesaf yr Eco.

## EISTEDDFOD BRO MADOG

Gwyddom fod llu o Wobrau Cenedlaethol wedi eu hennill gan unigolion, grwpiau a bandiau o'r fro hon. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

(talw fesul dipyn amdani) a mi oedd Magi wedi gwirioni yn lan.


Ychydig o ddiwrnodiau wedyn dyma'r beilis i dŷ Mrs Huws a mynd a phob sgrap o bopeth, ond oedd wiw iddynt fynd â'r piano, achos nid oedd Mrs Huws wedi talu am honno. Felly am rai diwrnodiau oedd Magi yn chwara yn grand ar y piano, a honno yn sgleinio yn lan ac yn newydd, a Magi yn eistedd ar ryw

hen focs pren oedd rhywun wedi roi iddi. Buan iawn daeth pobol y siop i nôl y piano. Bu Magi farw yn un-ar-hugain ac mae wedi ei chladdu yn Llanfair-is-gaer.

Mi welais i lawer iawn o bethau fel hyn yn digwydd pan oeddwn i yn fychan, ar bobol druan yn cymeryd y cwbl yn ddistaw, ac yn cwyno dim.

Mae mwy o ddewis nag erioed gan  
**JOHN A ROBERTA GRIFFITH**  
**Y STORFA**  
**SGWÂR LLANRUG**  
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,  
Diodydd, Gwlân Sirdar,  
Patrymau, Gweill Aero  
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.  
Agored tan 8.00 p.m. nos  
Wener a  
9.30 - 12.30 fore Sul  
Archebwch dros y ffôn — fe'i danfonwn at eich drws



**Caernarfon Industrial Supplies**

**BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448**

Hoelion, Sgriws, Bolltiau, "Fasteners",  
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a  
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn  
y fro.

**Tŵls C.K. am brisiau cystadleuol**

**Aled Jones**

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys**  
**Penisarwaun**  
Ffôn: Llanberis  
871047



# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

**SEFYDLIAD Y MERCHED:** Bu'r Gangen leol o'r Sefydliad yn dathlu'i phenblwydd yn 65 mlwydd oed. Trefnwyd swper dathlu yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy. Cyflwynodd Mrs Kate Parry Jones y llywydd, Mrs Rhian Owen, llywydd y Ffederasiwn yng Ngwynedd. Cyflwynodd Mrs Rhian Owen flodau hardd a oedd wedi cael eu trefnu gan Mrs Janice Land i Mrs Mary Thomas aelod hynaf y Sefydliad, hi hefyd a wnaeth dorri cacen hyfryd a oedd wedi cael ei gwneud ym Mecws Deiniolen.

Cafwyd adloniant ysgafn o dan arweiniad Mrs Gwen Hughes. Darllenodd Mrs Nancy Rowlands benillion da oedd yn addas i'r amgylchiad. Cafwyd noson ddifyr iawn ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain.



*Mrs Rhian Owen, Cadeirydd y Sir Sefydliad y Merched, yn cyflwyno blodau i Mrs Mary Thomas, aelod hynaf Sefydliad y Merched Deiniolen ar benblwydd y Sefydliad yn 65 oed y flwyddyn yma.*

**CYNGOR EGLWYSI:** Bu'r Cyngor Eglwys yn cyfarfod yn ystod Gorffennaf i baratoi ar gyfer tymor 1987-88. Ar derfyn ei dymor fel llywydd y Cyngor am y flwyddyn cynt, anogwyd y rhai oedd yn bresennol gan y Parchg Eryl Blainey, er gwaethed y dyddiau diflas presennol yn achos crefydd, i gymryd cysur o gofio bod hanes yn dangos y cafwyd deuddeg canrif o lanw mewn Cristnogaeth ers dyddiau'r Iesu. Etholwyd Mrs Miriam Lewis, Disgylfa, yn llywydd, a'r Parchg Ifor L. Williams, yn Is-lywydd, am y flwyddyn 1987-88. Trefnwyd rhaglen amrywiol fydd yn cychwyn gyda Chyfarfod Gweddi Diolchgarwch am y Cynhaeaf, i'w gynnal yn Festri Cefnywaun, ar nos Lun, 12 Hydref. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r sefydliad yn y Ganolfan ar Orffennafed o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd y llywydd yr Is lywyddsef Mrs J Eirlys Williams i ddweud hanes y cyfarfod cyffredinol yn Llundain.

Cafwyd adroddiad manwl gan Mrs Williams a diolchwyd iddi gan Mrs Beti Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Glenys Williams a Mrs Eirian Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Williams a Miss Kathleen Jane Jones. Cafwyd Moes a hefyd a gofaldwyd am y bwrdd gan Mrs Beti Williams. Dymunodd y llywydd ben blwydd hapus i Mrs Beti Williams, a chroesawyd Mrs Nancy Thomas yn ôl ar ôl gwaeledd a Miss Kathleen Jane Jones ar ôl bod yn yr ysbyty. Bydd y Cyfarfod nesaf ar Fedi 7ed pryd y bydd Mrs Judith Harding yn sôn am fwydydd iach.

**CLWB PELDROED:** Mae cryn dipyn o weithgareddau ar waith wrth i'r tymor pêl droed ail-ddechrau. Mae pwyllgor newydd wedi ei sefydlu, ac mae rhaglen amrywiol ar droed i godi arian i gynnal treuliau'r Clwb. Mae dirprwyaeth eisoes wedi cael cyfweiliad â'r Aelod Seneddol Dafydd Wigley i geisio cael y cae pêl droed yn addas i chwarae arno gan fod argoelion am dri thim yn y pentref eleni. Buydd timau o dan 12 oed, o dan 14 oed ac o dan 16 oed. Dyma fenter ardderchog i ardal mor fach, ac mae'n hynod bwysig fod cae addas i'r bobl ifanc yma yn gwbl angenrheidiol.

Bu Mr John Thomas ar daith beic nodedig ar Awst 3ydd o Ddeiniolen i Gapel Curig ac yn ôl. Cafodd groeso brwd yn y cae chwarae wrth i ddau dîm gael gornest gyfeillgar i'w groesawu yn ôl. Gwerthwyd hufen-ia a diod oren a bu'r noson yn hynod lwyddiannus yn gymdeithasol ac yn ariannol.



Bydd Noson Goffi yn neuadd yr Ysgol, Nos Fercher Medi 16eg. Taer erfynnir am gefnogaeth frwd gan fod Mr Sammy Lewis, Bangor yn dod yno i gyflwyno'r dillad newydd. Mae'r dillad yn ddrud iawn a mawr hyderir y bydd y noson goffi yn cynnal y baich ariannol. Ar Hydref 28ain hyderir cael Disgo Calan Gaeaf yn neuadd yr Ysgol. Bydd gwobrau arbennig i'r 'Wig Ffasni' orau. Apelir eto am gefnogaeth i'r gweithgareddau gan fod pawb yn ddiolchgar i Mr Elfed Williams, Mr Emyr Jones a Mr John Thomas am roi o'u hamser prin i hyfforddi y tri thim ifanc yma.

Tybed a oes dwy fam yn fodlon ymgymryd â'r gwaith o olchi dillad y tim o dan 14 ac o dan 16 ar ôl y gemau? Mae gwir angen rhywun cyfrifol ac os oes rhywun yn awyddus yna dowch i gysylltiad â Mr Elfed Williams ar y ffôn, Llanberis 871146.

Pob hwyl ar ddechrau'r tymor i'r tri thim a mawr hydeir y bydd llwyddiant mawr iddynt yn ystod y flwyddyn.



**PRIODAS:** Dydd Sadwrn, Awst 1af yng Nghapel Cefn-y-Waen, Deiniolen priodwyd Mr Kevin Jones mab Mr a Mrs J.G. Jones, 9 Tan y Foel ag Anwen Thorman-Jones, merch Mr a Mrs Neville Thorman-Jones, 14 Tai Caradog. Gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch Trefor Lewis a'r Parch Dewi Morris, Porthmadog. Yr organyddes oedd Mrs Ann Eluned Richards, y gwas oedd Mr John Williams, Bethel a'r morynion oedd Miss Pat Morris, Debbie a Lynne Roberts. Cafwyd y brecwast priodas ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle. Mae'r pâr ifanc wedi cartrefu yn 'Gorwel', Gallt y Foel.

**LLUN;** Mewn ymateb i lun a anfonwyd gan Mr Glyn Williams, Pencae, Wrecsam o Ysgol Gwaun Gynfi 1936 yn y rhifyn diwethaf o'r Eco y mae dau farc cwestiwn? Yr eneth yn y llun yw (Margaret Morris, Fron Deg, Clwt y Bont gynt) sydd yn awr yn Mrs Jones ac yn byw ym Mangor. Mae amheuaeth am y bechgyn. Dywed rhai mai Mr John Williams, Pentre Helen gynt sydd yn awr yn byw yn Seion, Bethel. Dywaid eraill mai Mr Wyn Davies, Stryd Gwryfai, Clwt-y-Bont sydd ar hyn o bryd yn byw yn Sir Fôn. Pwy sydd yn iawn tybed? Beth am ateb hogia?

Dymuna Miss Kathleen Jane 'Prenteg' Deiniolen ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a'r blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd diolch i feddygon a gweinyddesau yn Ward Ogwen am eu gofal tyner. Diolch hefyd i teulu 'Foelas' Llanrug am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yno am naw wythnos cyn mynd gartref. Derbyniad pawb ei diolchgarwch llwyr.

Dymuna Donna, 10 Porth Gogledd, ddiolch yn fawr am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Gorff. 10ed. Diolch yn fawr.

**Emyr Jones**

**PLYMAR A  
PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI**

Cynnal Boileri, Gwaith  
trin pibellau nwy,  
olew, tanwydd solat.

**44 Glanffynnon  
LLANRUG  
Caernarfon 3513**



**OSMOND  
SHAW  
DEINIOLEN**

Gwerthu  
a thrwsio  
Teledu Lliw  
Newydd ac Fel  
Newydd  
**GWASANAETH  
ATEB  
FFÔN 24 AWR  
LLANBERIS 870545**



**BECWS  
DEINIOLEN**

(D.E. & R.P. JONES)

**Ffôn:  
LLANBERIS 870232**

**BARA FFRES A  
THEISENNAU BLASUS  
Hefyd gwerthwyr  
CALOR GAS**

**IEUAN  
WILLIAMS**

Glanffrwd  
**DEINIOLEN  
Llanberis 870484**

- \* Bysus o 12 i 53 sedd
- \* Teithiau Lleol a Thramor
- \* Gwaith Contract
- \* Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



## DEINIOLEN parhad

**DIOLCH:** Dymuna Kevin ag Anwen ddiolch yn gynnes i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Wendy Rowlands, 17 Rhydfadog ddiolch i'w rhieni, teulu, cymdogion a ffrindiau, i Mr R. Jones a'r staff i gyd yn Ffordd y Coleg Bangor, am y lluo o garidau ac anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei deunaw oed.

Dymuna Johna Mavis Williams ddatgan eu diolchgarwch i'r teulu a chymdogion a chyfeillion am y lluo caridau a'r anrhegion ar achlysur dathlu eu priodas ruddem ar Awst 2il, diolch yn fawr i bawb.

**DYMUNA** Sian Wyn Evans, 13 Rhydfadog ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion ag arian a dderbyniodd ar yr achlysur o fod yn Dywysoges y Carnifal. Diolch i'r Pwyllgor am eu gwaith, i Mr Eames a Staff yr ysgol am bob cymorth, i Anti Janice am wneud y blodau a phobeth arall, ac i Anti Deanna ac Uncle Percie am wneud y Garafan.

Dymuna Mrs Laura Roberts, Bron Gynfi, ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**LLONGYFARCHIADAU:** i Jennifer Ellen, Porth y Gogledd ar ddod yn drydedd ar adrodd 12.16 yn Eisteddfod Bro Madog. Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu yn y Genedlaethol. Diolch hefyd i Mrs Mary Wyn Jones am ei dysgu.

Llongyfarchiadau i Mrs Mary Wyn



Jones, Ceris ar ennill B.A. gydag Anrhydedd yng ngholeg Prifysgol Bangor. Bu Mrs Jones yn dysgu am rai blynyddoedd yn Ysgol Gwaun Gynfi. Pob hwyl iddi i'r dyfodol.

Ddeuddydd cyn cyrraedd ei deunaw mlwydd oied, derbyniodd Sandra Morris, 7 Ffordd Deiniol, anrheg penblwydd ardderchog. Clywodd iddi ennill tystysgrif Lefel A yn y tri pwnc y bu'n eu hastudio yn Ysgol Brynrefail. Dymuna Sandra a'i rhieni diolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar y ddau amgylchiad uchod. Bwriad Sandra yw mynd ymlaen i astudio yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor, a bydd pawb o'i chydabod yn edrych ymlaen am ei llywddiant pellach yno.

**Y BADAU ACHUB:** Yn ystod wythnosym mis Gorffennaf casglwyd £71.56 yn Neiniolen a Dinorwig er budd y Badau Achub. Y casglwyr oedd:

Miss Nicky Marzels £23.50; Miss Heather Hughes a Matthew £8.78; Mrs Eileen Hughes £13.29; Mrs Rosina Wortha Mrs Price £13.81; Miss Iona Wyn Williams (Dinrwig a'r Fachwen) £13.84; Mrs Yvonne Hughes a Mrs Gloria Thomas £8.84. 'Roedd hyn yn cynorthwyo'r trefnwyr i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1,665.04. Diolch i'r casglwyr a phawb a gyfrannodd.

**CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DEINIOLEN:** Dalier sylw: Bydd y Gymdeithas Lenyddol yn ail ddechrau rhaglen y gaeaf ddiwedd Medi pryd y disgwylir Cwmni Drama Llanberis i agor y tymor. Fe hysbysir y manylion trwy bosteri a welir yn siopau'r pentref. Estynnir croeso i aelodau newydd ymuno.

## LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siopau llyfrau lleol.

### Karate a Jiwdo

Dafydd Andrew

Y Lolfa £2.25

*Y llyfr hyfforddi Karate a Jiwdo cyntaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg. (Cyfres Dewch i Chwarae)*

### Bwrw Swyn

Irma Chilton

Gwasg Gomer, £1.60

*Y llyfr diweddaraf yng Nghyffres Corryn.*

### Cyfarchion y Dysgwyr

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd 75c.

*Casgliad o saith o sgysiau byrion gan ddygwyr. (gw. hefyd colofn "Llythyrau")*

### Y Dyn Dewr

John O. Evans

Gwasg Carreg Gwalch 60c. yr un.

## WAEN GYNFI YN YR HEN AMSER

**Diolch i Mrs B. Evans, Llys y Gwynt, Penisarwaen am anfon yr hanesyn hwn i'r Eco.**

Saif Waen Gynfi oddeutu dwy filltir a hanner o odreu'r Wyddfa yng ngodreu'r mynyddoedd enwog Elidir a'r Fronllwyd, ac y mae lliaws o fynyddoedd llai yn ei chylchynu, oddigerdd un bwch i'r gorllewin. Yn yr hen amser, pan oedd tir Waen Gynfi yn wyllt, grug a brwyn drosti i gyd, heb gael ei drin fel y mae nawr, prif gynnyrch yr ardal oedd meirch, defaid, mawn a brwyn. Mae enwau yr anedd-dai yn profi hyn yn eglur, Tan y Maichlyn, Tonnen y Cesyg, Gorlan, Gorlan y Bont, Ty'n y Fawnog, Corlannau, Gwyr Mawn, a lliaws eraill. Blinid yr hen bobl yn erwin gan y llwynogod oedd yn tarfu y praid, a llawer ymdrech deg fu ganddynt i'w dal. Hefyd, yr oedd hanner coron i'w gael yn eglwys y plwyf am gynffon y cadno, yr hyn oedd yn dyblu eu diwydrwydd i'w dal, gan fod hanner coron yn swm mawr iawn y pryd hynny.

Un o'r moddion hwyaf effeithiol i'w dal oedd hen Gorlan oedd i'fyni yn Foty Alis, a'i muriau yn taflu dros 'dros blwm', neu 'dros droed' fel y dywedir, fel mai gorchwyl anhawdd oedd i'r llwynog neidio ohoni os unwaith ai i mewn. A'r ffordd oedd ganddynt i'w hudo oedd casglu ysgerbydau defaid, a'u taflu i waelod y Gorlan. Yna, doi'r Cadno yno yn ôl synnwyr ei ffroen, a'i chydmaru â'i

stumog wag, ac mor sicr ag y byddai wedi mynd yno, ni ddai oddi yno drachefn. Ond mae hanes am un a ddaeth oddi yno yn ddianaf. Un bore, aeth hen fugail o'r enw Gruffudd Owen Ellis, i'fyni at y Gorlan. Nid oedd ganddo ddryll gydag ef y tro hwn, dim ond rhyw raw bal fechan; yr oedd y madyn i fewn yn daclus. Edrychodd y ddau ar ei gilydd, y naill a'r llall yn cynllunio pa fodd i weithredu. O'r diwedd, rhoes yr hen frawd ei gynllun mewn gweithrediad. Tarawodd ei law ar ben y wal, a neidiodd i mewn. A thrwy fod yno gryn ddyfnder, yr oedd yn gorffod plygu ar ei ddisgyniad; a thra yr oedd yn y ffurf yma, y cadno, yntau, a ddangosodd i ba dylwyth yr oedd yn perthyn, a rhoddodd lam ar ysgwydd Gruffudd Owen Ellis, ac oddi yno i ben y wal, ac ymaith ac ef yn ddianaf i'fyni i Garnedd y Filiast. Fffromodd yr hen wr yn arw, a daeth yno drachefn ymhen deuddydd a dryll gydag ef, yn llawn ysbryd dial. Aeth at y gorlan, ac er ei lawenydd, yr oedd yno lwynog ieuanc, heb fod wedi cyrraedd llawn synnwyr fel y llall. Anelodd y dryll at ei benglog a dywedodd, "Hwda, dyma ti hon er mwyn dy dad y dydd o'r blaen." Aeth i lawr ato, a thafodd ef dros y wal, a thorodd ei gynffon, ac aeth â hi i hen Eglwys Llanddeiniolen, lle y cafodd hanner coron am ei drafferth.

*Y dramâu diweddaraf yng Nghyffres y Llwyfan.*

### Delwau Duon: Symphonies in Black

Nicholas Evans

Y Lolfa £9.95

*Casgliad o beintiadau Nicholas Evans.*

### Dafydd ap Gwilym

R. Geraint Gruffydd

Gwasg Pantycelyn £2.50

*Astudiaeth o fywyd a gwaith Dafydd ap Gwilym. (Cyfres Llên y Llenor)*

### Cymru'r Tuduriaid

Gareth Elwyn Jones. Beryl Thomas (Cyf.)

Gwasg Gomer £3.95

*Un o gyfres o lyfrau sy'n rhan o'r cwrs Hanes Cymru ar gyfer disgyblion 14-16 oed.*

### Y Seren Arian

J. Selwyn Lloyd

Urdd Gobaith Cymru £2.25

*Stori i blant am frwydro a twyll yn y Gorllewin Gwyllt.*

### Popeth am Ysbrydion

Christopher Maynard, T. Llew Jones, (Addas)

Gwasg Gomer £2.25

*Llyfryn lliw-llawn sy'n egluro hanes*

*ysbrydion a'r ymchwil ddiweddar arnynt.*

### Deunaw o Deithiau Cerdded ym Meirionnydd

Eryl Owain

Gwasg Carreg Gwalch £1.90.

*Llyfryn yn cynnwys nifer o deithiau cerdded wedi'u llunio a'u graddio'n ofalus.*

## ODLAU'R TYMHORAU

**Adolygiad gan y Prifardd Aled Rhys Wiliam**

Pwy ohonom sydd heb ymglywed â swynion Natur? O ireidd-dra blagur y gwanwyn, arogleuon a lliwiau blodau'r haf, i "liwgar deg lygredigaeth" yr hydref, chwedl Ap Hefin, a hyd yn oed niwloedd a moelni'r geaaf. Ac ambell 'atgofus, dangnefeddus wynt' yn codi hiraeth melyn am hen brofiadau. Ond dyw pawb ddim yn gallu cyfleu mewn geiriau y cyffroadau hyn sy'n mynd yn ddwfn i mewn i enaid dyn. Dyna swyddogaeth y bardd. Naturiaethwr adnabyddus sy'n gweld y byd â llygad bardd yw Norman Closs-Parry - un o gyfeillion pennaf Cymdeithas y Glannau ac un o'r arloeswyr a sefydlodd y papur bro (Y Glannau) gan gyfrannu erthygl fisol am fyd Natur. A'i gymwynas ddiweddaraf yw'r gyfrol o gerddi ac ysgrifau a darluniau sy'n dwyn yr enw Odlau'r Tymhorau, a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch, Capel Garmon: cyfrol sy'n sylwadaeth graff a chariad dwfn at fywyd y wlad. Yn ogystal â rhoi mwynhad i bawb sy'n gwerthfawrogi ceinder a rhyfeddod ein hamgylchedd, bydd y gyfrol hon yn gwneud cymwynas hefyd a Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn - gan fod yr elw i gyd yn mynd i goffrau'r achos teilwng hwnnw: rheswm da arall dros ei phrynu.

"Odlau'r Tymhorau", gan Norman Closs-Parry, Gwasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, Llanrwst: £3.00

Dywed Moi Parri ar ran Cefnogwyr y Nant "fod yr awdur wedi penderfynu bod breindal y llyfr i'w drosglwyddo i'n hapel arbennig i godi £10,000 i baratoi tŷ i'r methodig yn y Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn".

# Bistro

## Glandŵr 43-45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278  
(Danny a Nerys Roberts)



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

Merched ...  
Dynion ...  
Plant ...

I gael trin eich  
gwallt yn eich  
cartref cysylltwch â

# SIAN

## MAIRANNEDD LLANRUG

Ffôn:  
Caernarfon 5366



# LLANBERIS

**LLONGYFARCHIADAU** i Bethan Hughes, Beech Bank ar ennill gradd B.A. gydag anrhydedd yn y Saesneg ym Mhrifysgol Nottingham. Dymunwn lwyddiant pellach i Bethan, fydd yn cychwyn ar gwrs gradd uwch mewn Llyfrgellyddiaeth yn Aberystwyth ym mis Medi ac i'w chwaer Janet fydd yn cychwyn yr un pryd ar gwrs gradd mewn Ffrangeg ac Astudiaethau Busnes yn Wolverhampton.

Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar ddathlu eu penblwydd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst. Yn un ar hugain: Rhianon Pritchard, Keith Parry, Michael Roberts, Yvonne Owen, Nia Jones, Bethan Hughes, Gillian V. Jones. Yn ddeunaw oed: Valerie Prydderch ac Andrew Thomas.

Dymunwn longyfarch plant y pentref am lwyddo yn eu arholiadau lefel 'O' ac 'A', hefyd y rhai sydd wedi llwyddo yn y gwahanol golegau. Da iawn.

Llongyfarchiadau i Rhian Owen am ddod yn gydradd gyntaf am ganu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog ac ennill Ysgoloriaeth, ac hefyd am ddod yn ail yn y gystadleuaeth i sopranos.

**GWELLHAD:** Dymunwn wellhad buan i'r rhai canlynol sydd wedi bod yn yr ysbyty neu yn cwyno gartref. Katie Williams, Stryd Turner, M. Wil Roberts (Wil Korea), 1 Rock Terrace, Parch Alun Hawkins, Alison Pitts, 53 Dol Elidir, Karen Owen, 30 Dol Elidir, Jason Baylis, Anfield, Gavin Carr, Maes Padarn, Gail Tanfield, 10 Dol Elidir, Mrs Betty Owen, Maes Padarn, Mr Iorwerth Williams, Tŷ Du Road, Llainwen, Eirian Roberts, Dol Elidir, Mrs Dot Hughes, Maes Padarn, Mr Ifor Evans, Maes Padarn, Mr Haydn Watkinson, Maes Padarn, Mr Edryd Sharp, Maes Padarn.



*Dyma lun y rhai a gymerodd ran gyda eu hyfforddwraig Nicky yn y cefn: Enfys Parry, Dilys Phillips, Carol Jones, Catherine Bee, Lola Sellers. Nid yw Gwyneth Owen yn y llun gan ei bod yn chwarae pêl rwyd ar y pryd y'i tynnwyd.*

**SEFYDLIAD Y MERCHED:** Ar Fehefin 25 mwynhawyd tripdig i ynys Môn, gan ymweld â Sŵ môr Môn, ym Mrynsiencyn, ac yna ymlaen i Westy Carreg Bran, Llanfairpwll lle cafwyd bwyd ardderchog. Diolchwyd ar y bws i Mrs Nan Owen a Mrs Mair Jones am drefnu'r trip. cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfa gyda Mrs Hannaf Jones yn llywyddu. Ein gŵr gwadd oedd y Parch Gwynfor Williams a chafwyd sgwrs ddiddorol am Doriadau yn y Gwasanaeth Ambiwlaens. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs Dwyntwen Roberts a Mrs A.M. Evans. Y gwestwagedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs Katie Williams a Mrs Dilys Phillips. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 24.

**Gohebydd: Lola Sellers, 13 Dôl Elidir**

**CLWB METHEDIG ERYRI:** Yr oedd yr aelodau yn falch o groesawu Mrs Enid Roberts a Mrs Dorothy Thomas yn ôl wedi treulio amser yn yr ysbyty ac yn dymuno gwellhad i aelodau eraill sy'n sal. Llongyfarchwyd Miss Megan Price am ennill y wobwr gyntaf a'r drydedd yng nghystadleuaeth Tegan Meddal yn Sioe Dyffryn Ogwen. Mae'r aelodau wedi bod yn brysur gyda chreffftnewydd sef ysgrythu gwyr. Bu'r Clwb am drip i 'Joys of Life' ym Methesda ar Orffennaf 20ed pan gaewyd y clwb am yr haf tan Medi 7ed. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Myra Jones a Mrs Megan Owen ac enillwyd ef gan Mrs Clark, Mrs Evans a Mrs Menai Jones.

**CHWARAEON:** Yn ystod y flwyddyn diwethaf tua deg o ferched o'r pentref yn mwynhau eu hunain ar brynawn Llyn, Mercher a lau yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau fel chwarae pêl rwyd, ymarfared corff, cffar, bowls, badminton, cerdded Y Wyddfa a cherdded yn dilyn map o amgylch y fro. I ddiwedd am yr haf aethant i Feddgelert i'r Chwael Gop ac wedyn cerdded i'r pentref ei hun a chael picnic ar lan yr afon. Roeddynt yn cael eu hyfforddi gan Nicola Taylor a Sheryl Owen. Ddiwedd mis Gorffennaf aeth dau fws o Wynedd i Wrecsam i gystadlu yn y chwaraeon a drefnuwyd i gystadluwyr o Ogledd Cymru. Yr oedd 8 tîm yn cystadlu a daeth Gwynedd yn bedwerydd. Y trefnydd oedd Mr Dafydd Ellis, Caernarfon ond yn wreiddiol o Res Victoria, Llanberis. Yn y tîm o Wynedd yr oedd 6 o Lanberis yn cymryd rhan yn y canlynol: Pêl rwyd, tug of war, rhedeg milltir o dan 40 oed, a dros 40 oed, rhedeg 100 medr i rai o dan 40 oed a dros 40 oed.



*Griff ac Elizabeth Hughes gynt o Stryd Siarlot yn cyflwyno darlun o olygfa leol (wedi ei baentio gan Barbara Owen) i Matron a Staff Plas Pengwaith, Llanberis er cof am Anti Nell (Nell Davies, 5 Stryd Siarlot, Llanberis) gan y teulu a ffrindiau.*

**DYMUNIADAU** gorau i David a Dawn ar achlysur eu priodas yn ystod mis Awst, ac i Nigel Roberts, Maes Padarn ac ei benblwydd yn 21ain ar Fedi 5ed.

**DYMUNIADAU DA** i Iorwen, Dewia Kenny Lee yn eu cartref newydd, 12 Dol Elidir, hefyd i Derek, Freda a'r hogiau yn eu cartref newydd ym Maes padarn, Eurwyn, Jean a'r eneth fach hwythau yn eu cartref newydd ym Maes Padarn a Ron a Gwen sydd wedi dod yn ôl i'r pentref i fyw.

Dymunwn yn dda i Catrin Lennon sydd yn mynd i weithio i Norway ym Mis Medi.

i Pat Owen sydd wedi mynd i'r America ac i Carol Jones sydd yn mynd i'r fyddin i weithio fel nyrs.

Dymuniadau gorau i Mrs Jones, Maes Padarn ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed, hefyd i Mr Ivor Evans, Maes Padarn ar ei benblwydd yntau yn 80 oed.

**DIOLCH:** Dymuna Robert Vaughan ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniodd ar achlysur bod yn was i Frenhines Jacinta yn y carnifal. Diolch hefyd i Bwyllgor y carnifal.

Dymuna Jacinta, Brenhines y Carnifal ddiolch yn galonog i bawb am eu caredigrwydd tuag ati, ac yn arbennig i aelodau Pwyllgor y carnifal. i Sarah, Lliwen ac Alun diolch am bob cymorth.

Dymuna Mr Hugh Jones, 79 Maes padarn ddatgan ei ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn glaf yn Ysbyty Glynedd. Diolch yn arbennig i'r rhai a gwynodd ei wraig yn arbennig i'r ysbyty ac hefyd i'r meddygon ar nyrsus am eu gofal. Diolch o galon.

**ER COF:** Er cof annwyl am fy mhriod a mam a nain sef Mrs Hetty Hughes, 7 Charlotte St., Llanberis a fu farw Awst 30, 1984. Oddi wrth Bob, Liz, Griff, a Luned a Carwyn.

**CROESO'N ÔL:** Da oedd gennym weld Ceridwen, Ronnie a'r genod wedi dod yn ôl ar eu gwyliau i weld y teulu. Merch Mr Goronwy Roberts, Stryd Warden yw Ceridwen ac mae Ronnie hefyd yn un o fro'r Eco sef o Ddeiniolen. Maent yn byw yng Nghanaada. Da hefyd yw gweld Griff a'i wraig wedi dod ar eu gwyliau am rai misoedd i Lanberis, maent hwythau hefyd yn byw yng Nghanaada.

**LLONGYFARCHIADAU:** i Michael Roberts, 1 Well Street ar dy benblwydd yn 21ain ar Awst 8ed oddi wrth y teulu i gyd.

i Bob a Nelly Carveth, Henryd, Llanberis ar achlysur eu priodas ruddem.

i Shaun Foulkes, Dol Elidir am ddod yn ail yn y gystadleuaeth 800 medr ac yn ail am 400 medr ym Mabolgampau arbennig Cymru yng Nghwmbran yn ddiweddar. y mae

Shaun ar ei flwyddyn olaf yn Ysgol pendalar, Caernarfon. Dalier ati i redeg nawr ac ôl gadael yr ysgol.

**DYWEDDIO:** Dymunai Mr a Mrs D Williams, 23 Stryd Fawr gyhoeddi dyweddïadeu mab Andrew Vaughan â Teresa Ann Tate, 8 Stryd yr Eifl, Caernarfon ar Awst 9ed. Dymunwn y gorau i'r ddau ohonoch.

**DIOLCH:** Mae Llinos, 1 Stryd Tomos am ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig wrthi yn ddiweddar.

Dymuna Keith Parry ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 21ain.

**RAS Y CHWADODS!** Dymuna y Frigad Dàn, Llanberis ddiolch o galon i bawb am, gyfrannu tuag at y ras. Gwnaed elw o £270, aiff hanner yr elw tuag at y tîm pêldroed o dan 12 oed a'r hanner arall tuag at y Frigad Dàn. Cyntaf: Mr Thomas, Bangor; ail: Grace Jones, New St. Caernarfon; trydydd: I Dixon, Manchester. Diolch i bawb.

**DIOLCH:** Dymuna'r Weinyddes Lliwen ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion ac arian a roddwyd iddi ar achlysur y Carnifal yn ddiweddar.

Dymuna Goronwy, John ac Ann ddiolch o galon o y llun cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli eu tad, Michael Pritchard, Glanfa. Diolch i'r meddygon, nyrsus a phawb yn y Clinic, Heol Capel Coch am eu gofal dros y blynnyddoedd. Diolch hefyd i'r Parch Gwynfor Williams, y perthnasau a'r ffrindiau oll, ac i'r cymdogion am eu caredigrwydd mawr. Diolch am y rhoddion hael tuag at Gange Llanberis o'r St. John Ambulance.

Dymuna Rhianon Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 21ain.

**YSGOL TREBORTH:** Ar ddiwedd y tymor diwethaf gwnaeth dau fachgen o'r ardal sydd yn Ysgol Treborth yn dda iawn yn y Mabolgampau. Cafodd Dewi Jones, Balaclava, darian am fod yn llwyddiannus a chafodd Andrew Pitt, Dol Elidir fedal am redeg. Cafodd Andrew darian hefyd am ddod yn disgybl a oedd wedi gwneud y cynnydd yn ei waith ac yn arbennig am nofio. Mae'n dda gweld bod gan yr athrawon amynedd i ddysgu y plant yma ac yr wyf wedi gweld sut mae Andrew wedi gwella yn ei waith o flwyddyn i flwyddyn gyda'r holl fedalau a'r tariannau y mae wedi eu derbyn. Cafodd Dewi darian am ennill yn y gystadleuaeth chwarae Pool yn y ganolfan yn Llanberis. Daeth yn gyntaf yn erbyn y dynion i gyd.



## PARHAD LLANBERIS

## RAS YR WYDDFA



Plant Llanberis a redodd yn y ras

RAS YR WYDDFA: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol am wneud yn dda yn y ras ar Orffennaf 18ed.

Bechgyn o dan 12 oed: 1. Jason Baylis (Eryri Harriers); 2. Alwyn Thomas; 5. Iestyn Pritchard; 6. Hugh O'Donnell; 7. Arwyn Hughes; 10. Gavin Carr; 11. Gavin LL. Hughes; 12. Dylan Davies; 13. Aneuryn Ffoulkes.

Genethod o dan 12 oed: 2. Llinos Jones.

Bechgyn o dan 14 oed: 9. Steven Edwards; 10. Cai Williams (Eryri Harriers).

Genethod o dan 14 oed: 2. Lynda Prydderch (Eryri Harriers); 5. Julie Baylis (Eryri Harriers).

Bechgyn o dan 16 oed: 1. Paul Prydderch (Eryri Harriers).

Diolch yn fawr i Mr Dennis Carr, Maes Padarn am fynd a'r plant i ymarfer rai wythnosau cyn y ras. Diolch Den.



Jason Baylis a enillodd y ras i fechgyn dan 12 oed yn cael ei gyflwyno gan Dei Tomos.

CARNIFAL: Canlyniadau y Cystadlaethau Gwisg Ffansi:

O dan 3 oed: Liqueurice Allsorts - Mathew Lloyd Roberts; 2. Little Miss Muffet - Sioned Haf Williams; 3. American Footballer - Iwan Jones.

Dosbarth meithrin 1: 1. Jac yn y Bocs - Marc Evans; 2. Pinochio - Lianne Allsup; 3. Cwningen - Darren Owena'r Dyn Eira - Cadell Whittaker.

Dosbarth 2 a 3: 1. Colgate - Aled Owen Jones; 2. Pixie (Corach) - Ian Ellis; 3. Postman Pat - Lee Anthony Hughes, Dumbo - Tasha Allsup.

Safon 1 a 2 Ysgol Dolbadarn: 1. Lleidr Pen ffordd - Christopher John Thorne; 2. Jasper Carrot - Eiddon Whitaker; 3. Brenhines - Manon Williams.

Safon 3 a 4: 1. Cracker - Heledd Whittaker; 2. Coca Cola - Janice Hughes; 3. Chinese Lady - Carys Parry, Snakes & Ladders - Iona Vaughan.

Dosbarth 1 a 2 Ysgol Brynrefail: 1. Ruination of mankind - Mark Ellis; 2. Dame Edna Everidge - Edward Rogers; 3. Operation - Bethan Jones.

Dosbarth 3 a 4: 1. Syr Les Patterson - Marc Williams; 2. Miss Binbag - Wendy Rowlands; 3. Rambo - Christine Pitts.

Cymeriad unigol gorau: 1. Liqueurice Allsorts - Mathew Lloyd Roberts.

Dros 16 oed: 1. Ghostbuster - Eurwyn Thomas; 2. Henry VIII - Ceinwen Williams; 3. Rooster Booster - Linda Owen.

Brenhines Wadd - Fiona, Caernarfon Tywysoges Wadd - Rebecca, Porthaethwy

Car brenhines - Delyth, Deiniolen

Cystadlaethau Agored: Dan 9 oed: 1. Corach - Angharad Owen, Tywyn; 2. Blackmail - David McCabe, Llandudno Junction, Departed Spirits - Michael Jones, Ottawa; 3. Clown - Julia Ann McCabe, Llandudno Junction.

Tablo ar olwynion: 1. Rhufeiniaid - Cantorion Llanberis; 2. Scowtiaid Llanberis; 3. Tarzan yn y jyngh.

Grwp ar droed: 1. Henry VIII a'i Wragedd; 2. Merched o Ffrainc; 3. Ghostbusters.

Par digrif: 1. Syr Les Patterson a Dame Edna Everidge - Marc Williams a Edward Rogers.

Beic wedi addurno: 1. J.C.B. - Iona Vaughan; 2. Everton F.C. - Neil Atkin.

Enillwyr y Raffl Fawr: 1. £50 - John Williams, 5 Rock Terrace, Llanberis; 2. £30 - E. Wright, dan ofal Ferodo; 3. £20 - Alyse Rowe, dan ofal Wardle Storeys, Llandegai Industrial Estate; 4. Whisky - Jiws Llanberis; 5. Llestri Te - Nicola Baylis, Llanberis; 6. Siocled - Llifon Jones, Glanydon, Llanberis; 7. Lamp Fwrdd - Emrys Jones, Arfon Borough Council; 8. Set Dysglau - Clos, 3 Minafon Terrace, Llanberis; 9. Dysglau pwddin - Arwel Hughes, Yankee Street, Llanberis; 10. Dysgl Caserole - Ffion, Peris View, Llanberis; 11. Llestri gwydr - Rodgers, 30 Newton Street, Llanberis; 12. Gwin - Len Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis; 13. Plat - E. Rhys Jones, Llanberis Police Station; 14. Cwpan Crystal - Llanberis 871463; 15. Cwpan Windsor Rubis - Keith, Tegfan, Fron.

I OSLO: Ar Fedi 4ydd gadawodd Catrin Lennon, Plas Tirion hen "bentre bach Llanber" i ddechrau ar ei gyrfa fel gweinyddes yn ninas Oslo, yn Norwy. Bydd yn gofalu am Ellen merch fach Mr a Mrs Erikson. Cymraes yw Mrs Erikson o Bontyberem ger Caerfyrddin. Dymunwn iddi bob hapusrwydd a llwyddiant yn ei swydd newydd.

# NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

LLONGYFARCHIADAU: i Alan Pritchard, Llys Alaw ar gael ei ddewis i chwarae criced i Dîm Gogledd Cymru o dan 13.

GWELLA: Da yw gweld fod Karen Ann Price y Llythyrdy wedi gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yng Nghanolfan Feddygaeth Gogledd Cymru, Llandudno.

TRIP DIRGEL: Yn ystod mis Gorffennaf bu Pensiynwyr y Nant ar drip dirgel. Pen y daith oedd Canolfan Iaith Nant Gwytheyrn lle roedd pryd o fwyd ardderchog wedi ei baratoi iddynt. Wedi bwyta a chrwydro o amgylch y Ganolfan cafwyd hanes Nant Gwytheyrn a'r Ganolfan gan Mr Osian Wyn Jones. Ar ddiwedd y dydd 'roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Ar ddydd Sadwrn, Medi 5 bydd trip y

plant yn mynd i Butlins Pwllheli. Bydd y bws yn gadael am 9.30 a.m. Os am ddod rhwch eich enwau i Mrs Ann Price, Y Llythyrdy.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ifanc y nant sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu arholiadau ysgol a choleg. Dymuniadau i'r rhai sydd yn mynd i ysgolion newydd eleni, Eryl Ogwen, Nicola Roberts a Clare Owen i ysgol Brynrefail, Llanrug, ac i Gwen Griffith i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

DIOLCH: Hoffai Karen Ann Price ddiolch i bawb am y caredigrwydd trwy roddion a chardiau a dderbyniodd tra yng Nghanolfan Feddygol Gogledd Cymru, Llandudno.

LLONGYFARCHIADAU oddi wrth y teulu a'r holl ardal i Wendy (Tanybryn gynt) a hefyd ei gŵr George Jones, y ddau wedi ennill gradd B.A. gydag Anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Tipyn o gamp ynte o

gofio fod Caron sy'n ddyflwydd a hanner oed yn mynnu llawer o'u sylw. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch yn eich gyrfaedd yn y dyfodol.

CARNIFAL: cynhaliwyd y Carnifal eleni ar Nos Wener, Gorffennaf 24ain. Cafwyd ymateb a chefnogaeth galonog i'r cystadlaethau a carai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael tuag at y Carnifal.

Canlyniadau - Gwisg ffansi: Dan 5 oed, Nant: 1. John Paul (Bwgan Brain); 2. Ann Marie (Cupid); 3. Renee (Priodferch). Agored - 1. Iwan Jones (Peldroediwr); 2. Nicky Jones (Bwni); 3. Steven Williams (Clown). 5 oed, Nant: Aled Davies, David Sellers. Agored - 1. Sarah Ann Jones; 2. Dafydd Mali; 3. Nia Jones. 8 - 11 oed, Nant: Sarah Davies. Agored, 1. Gerallt Williams; 2. Janice Hughes; 3. Jessica Jones. 11 - 18 oed, Nant: Eryl Ogwen a Llinos Haf; 2. Emma, Gwen a Karen; 3. Owain Tudur. Agored, 1. Pamela McEveney; 2. Dylan Williams; 3. Lynda Williams. Oedolion, 1. Mrs Ann Jones a Glenys; 2. Marie.

Babi Bochgoch: 1. Ann Marie; 2. Steffanie Welsby a Louise Griffith; 3. Bleddyn a Lynsey.

Beic wedi addurno; Darren Owen. Gliniau Gwlanog: Plant - Victoria Walker; Oedolyn - Jane Walker.

Raffl: Cyw Iar - Mark Newton; Tywel - Elizabeth Jones; Bwrdd Nodiadau - Anita S.M.R.; Album Iunia - Mr Myrddin Pritchard, Padarn Rd.; Hambwrdd - Nia Edwards, Caernarfon; Gwin - Paul Griffiths, Llanrug; £5 - Alun Lewis; Cloc Llechen - Marie Angel, Caernarfon; Bocs Llysiau - Yvonne Roberts; Dol - Bet, 12 Llainwen, Llanberis; Pwyso'r Oen - Brian Owen a Mrs S. Roberts, Warden St.; Cwis £5 - Mr John Roberts, Goodman St.

Rasus ar y cae: Dan 5 oed: 1. Delwen; 2. Claudia Odonnell; 3. Christopher, Ifan. 5 - 8 oed genethod: 1. Sarah Jones; 2. Nia Jones, Lucy; 3. Karen, Marina. Bechgyn 5 - 8 oed: 1. Ian; 2. Aled; 3. Rory; Dafydd. 8 - 11 oed

genethod, 1. Sandra; 2. Gail; 3. Beverley. Bechgyn 1. Mark Newton; 2. Huw, 3. David. 11 - 15 genethod. 1. Llinos Wyn; 2. Lynne; bechgyn 1. Iestyn; 2. Mathew; 3. Steven. Ras Fawr dan ofal Alun Roberts a Meirion Griffiths: Oedolion 1. A. Wallis (15.54); 2. K. Prydderch (16.24); 3. Glyn Hughes (18.09). 14 - 16 Bechgyn. 1. Paul Prydderch (16.49); Genethod 1. Julie Baylis (23.19); 12 - 14 (Hanner ffordd), bechgyn. 1. Geraint Prydderch (10.35); 2. Marc Williams (10.41); 3. Daryl Griffith (10.49); Genethod 1. Linda Prydderch (11.22). Dan 12 oed: Bechgyn 1. Jason Baylis (9.39); 2. Alwyn Tomos (9.43); 3. Huw o'Donnell (10.03); genethod 1. Jennifer Owen (12.48); 2. Manon Williams (15.05); 3. Clare Louise Owen (15.18).

Llywyddwyd y noson, fel arfer, gan Dei Tomos yn ei ffordd unigryw, ogleisiol. Diolch yn fawr i bawb.

BEDYDD: Bore Sul, Mehefin 28, bedyddiwyd Stephanie Louise, merch fach Amanda a Peter Welsby, 1 Glanrafon Terrace yn Eglwys Sant Peris gan y Parch Alun Hawkins. Y mamau bedydd oedd Melanie Sellars a Jennifer Hughes a'r tadau bedydd oedd Idris Williams ac Alwyn Ll. Hughes.

## SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd  
Angladdau

## LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

### Cymraeg Saesneg

Angen hyfforddiant  
ychwanegol mewn darllen,  
ysgrifennu?

Oedran 7 i 13 oed

Cysyllter â Caernarfon  
3971 ar ôl 4.00 o'r gloch



# WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

YR YSGOL FEITHRIN:

**Taith Gerdded:** Nos Wener, Mehefin 19, cynhaliwyd taith gerdded o amgylch y pentref i godi arian at yr Ysgol Feithrin. 'Roedd hi'n noson eithriadol o braf ac i'w ddeunaw o ferched heini a fentrodd ar y daith wedi mwynhau'n arw, ac hefyd y pryd blasus yng ngwesty Bryn Eirian wedyn. Diolch i bawb anoddodd y cerddwyr.

**Trip y Plant:** Fore dydd Iau, Gorffennaf 9, aeth criw o rieni a phlant bach yr Ysgol Feithrin am dro ar gwch, ar Fae Caernarfon. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, mi wnaeth y plantos fwynhau'n fawr, a diolch i ofal y rhieni ni chollwyd yr un o'r criw bach brwdfrydig dros yr ochr! Aethpwyd wedyn i barc Coed Helen am bicnic. **Râs yr Antur:** Bydd yr Ysgol Feithrin yn gyfrifol am redeg y caffi ar ddiwrnod Râs yr Antur sef Medi 5. Bydd y caffi ar agor o 1.45 ymlaen, yn y canolfan.

**Yr Ysgol Feithrin ac Antur Waunfawr:** Hoffem nodi fod dau o werthwyr Antur Waunfawr, sef Catherine a Gwen, yn cynorthwyo'n rheolaidd yn yr Ysgol Feithrin ers dechrau'r flwyddyn. Maen nhw'n gwneud yn dda efo'r plant ac rydym ni'n hynod ddiolchgar iddynt am eu gwaith. Dim ond un enghraifft yw hon o'r ffordd ymae aelodau'r Antur yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd y pentref.

**YR URDD:** Bydd tymor newydd yr Urdd yn dechrau gyda Noson Ymaelodi yn y Ganolfan am 6.00 o'r gloch, nos Fercher, Medi 9ed. Croeso i aelodau hen a newydd.

**ANTUR WAUNFAWR:** 'Roedd gan Antur Waunfawr babell ar faes Eisteddfod Porthmadog yn arddangos darluniau o'r hyn sy'n mynd ymlaen yn Waunfawr. Cynyrchwyd llyfyn newydd yn amlinellu hanes a gwaith yr Antur wedi ei ysgrifennu gan Gwynn Davies a Hywel Evans. Dosbarthwyd nifer fawr o'r llyfryn, ac mae copïau ar gael. Bwriedir cynyrchu cyfieithiadau Saesneg maes o law, gyda'r amcan o geisio ysgogi ardaloedd eraill i efelychu yr hyn sy'n mynd ymlaen yn Waunfawr. Daeth Hywel Gwynfryn i'r babell brynhawn Sadwrn i dynnu raffl yr Antur. Enillwyd y wobwr gyntaf o £50 gan Miss Liz Thomas o Bwllheli (sy'n athrawes yn Ysgol Syr Hugh Owen). Dewisodd Miss Thomas droi y wobwr yn ôl i'r Antur - diolch yn fawr!!

Mae Mrs Gillian Wynn yn gadael yr Antur i weithio fel dalithydd yng Ngholeg Pencraig. Ymgeisiodd nifer fawr am y swydd wag. Byddwn yn croesawu Mrs Tracy Jones o Seion, Llanddeiniolen a oedd yn weinyddes yn Ysbyty Gwynedd, i gymryd ei lle yn fuan.

Mae Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yr Antur yn brysur iawn - er y glaw, nid oedd digon o fwyd ar gyfer y rhai a ddaeth i'r Barbysiw!!

Croeso i bawb ddod i Bryn Pistyll - ond rhoch ffôn i Waunfawr 721 cyn dod. Mae pobl o bedwar ban byd - Canada, Gwlad Belg, etc. (ar wahan i efrydwyd Coleg o Gymru a Lloegr) yn cochi'r llwybr i gyfeiriad y Waun.

**CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR:** Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Gorffennaf: 1. £40 Mr J.H. Edwards, Anneddle, 2. £25 Mrs M. Jones, Graianfryn, 3. £10 Mr G.O. Jones, Penclip.



Pwy fedr roi goleuni ar y llun yma - enwau, dyddiad ac yn y blaen? Diolch i Ifan Wyn Roberts, Ael y Bryn am ei anfon.

**EISTEDDFOD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990:** Mae pwyllgor apêl wedi cael ei sefydlu yn y pentref gyda'r bwriad o drefnu gweithgareddau i gyrraedd y nôd o £2,500 a osodwyd inni. Aelodau'r pwyllgor ydyw:- Gareth Jones (Cadeirydd), Haydn Jones (Trysorydd), Beryl Jones (Ysgrifenyddes), Don Roberts, Gillian Wyn, Cadi Jones, Nan Roberts, Olwen Williams, Alma Jones, Rhian Jones, Irene Roberts, Carys Jones, Ann Marston, Dic Jones, John Huws, Steve Jones.

Cynhelir i pwyllgor cyntaf yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Medi 9ed.

**MERCHED Y WAWR:** Nos Iau Mehefin 25ain i ddiweddu tymor llwyddiannus aethom am drip a swper i'r Pili Palas ym Mhorthaethwy. Yno cafwyd sgwrs gan Hugh John Hughes a chawsom gyfle i fynd o gwmpas y Palas gydag 8

Ian Jones yn ateb unrhyw gwestiwn oedd yn codi. Diolchodd Mrs Glenys Williams y Llywydd, i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y tymor a dymunodd yn dda i'r swyddogion a'r pwyllgor am y flwyddyn nesaf. Yn ei thro diolchodd Mrs Alma Jones y Llywydd newydd i Glenys am ei gwaith. Diolchodd Mrs Mary Vaughan Jones i bawb yn Pili Palas am y croeso a'r swper ardderchog. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 24ain, pan agorir y tymor newydd yng nghwmni Rol Williams.

**YR EISTEDDFOD LEOL:** Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar HYDREF 10fed yn y Ganolfan. Mae rhestr testynau ar werth yn y siopau lleol.

Bydd yr Arlunio, Gwaith Llaw, Cognition a Ffotograffiaeth yn cael eu beirniadu yn yr Ysgol Gynradd ar nos Lun, Medi 28ain. Gofynnir i'r cynnyrh fod mewn llaw rhwng 5.15 p.m. a 6.00 p.m. ar y noson. Ni dderbynnir gwaith ar ôl 6.00 o'r gloch

**ARHOLIADAU CERDDOROL:** Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant:- **Piano-Gradd 1:** Llio Mair Rhisiart, Llwyn Onn; Anwen Rhys Jones, Llwyn Afon. **Gradd 3:** Elin Gwilym, Lliidiart Wen. **Obo - Gradd 3:** Joanna Marston, Blaen y Nant, (Anrhydedd). **Clarinet - Gradd 6:** Euros Wyn, Y Fenni (Teilyngdod).

**CYDYMDEIMLWN YN FAWR:** Â theulu y diweddar Mr William Llewelyn Jones, Llanerch. Â Mrs Doris Roberts, Dwyrws, ar golli brawd. Â theulu y ddiweddar Mrs J. Morley Williams, Fronllwyd. Â Alys a Gwyneth Silyn ar golli mam, sef y ddiweddar Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun. Â Mr Arthur Griffiths, Eirianallt, ar golli brawd. Â Capt. Jackson, Trigfa, ar golli ei frawd yntau. Â Mr Elfyn Pierce, Bryn Gwyn, ar goli mam. Â Mr Huw Griffiths, Y Llythyrdy, ar golli brawd.

**LLONGYFARCHIADAU:** I Geoff Daniels, 8 Stad Tŷ Hen ar ei briodas â Liz o Gaernarfon. I Iona Williams, Trem y Don, 15 Stad Tŷ Hen, a Sandra Roscoe, Tŷ Ni, ar ddathlu eu penblwydd yn 18 oed. I Glenys Thomas, Gilfach, ar ei phriodas â Roger Watson o Feddgelert. I Dr a Mrs Miles, Trefeddyg, ar ddathlu eu Priodas Aur. I Mr a Mrs Eagleston, Tremallt, ar fod yn daid a nain eto. Ganwyd mab bach i'w merch Wendy a'i gwr, ac i Mr Mrs Allen, Pen y Bont, hefyd ar fod yn daid anain eto. I Michael Parry, Ffridd Felen, ar basio'n feddyg, M.B.Ch.B., a chael swydd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. I Mrs Gillian Wynn, Y Frenni, ar ei phenodiad fel dalithydd yng Ngholeg Pencraig, Llangefni. I Raymond a Pat Parry, Ffridd Felen, ar ddathlu eu Priodas Arian. Ac i oll o blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu haroliadau Lefel o, A a TAU. Dymuniadau gorau i'r dyfodol iddynt ac i'r rhai hynny sydd yn dechrau ar eu gyrfa mewn colegau neu mewn gwaith.

**RÂS ANTUR WAUNFAWR:** Bydd Râs Flynyddol 10k yr Antur a'r Râs Hwyl yn cymryd lle ddydd Sadwrn, Medi 5ed, am 2 o'r gloch o'r Ganolfan - diwrnod i ardal Waunfawr cael hwyl. Noddir y Râs eleni eto gan Guriad Calon Cymru, a rhoddir y gwobrau gan wŷr busnes lleol.

Trefnir stondianau yng nghae y Ganolfan gan gymdeithasau a Chlybiau o'r pentref, a bydd lluniaueth ar gael.

Bydd yna gemau ac ati gan "Operation Sport Wales" a'r Prawf Cymwyster Curiad Calon, a oedd mor

boblogaidd y llynedd, ynghyd â'r Majorettes.

Disgwylir nifer fawr o redwyr (profiadol ac eraill) i geisio gwella ar amserau Râs 1986.

Byddwn yn falch iawn o'ch cefnogaeth, naill ai fel cystadleuydd, neu gyda'ch cymeradwyaeth.

Cofiwch, bydd y râs yn gorffen yn yn cae tu cefn i'r Ganolfan, felly cofiwch adael y ffordd a'r mynedfa yn glir.

**DOSBARTH W.E.A.:** Bydd dosbarth y W.E.A. yn cael ei gynnal yn yr ysgol leol am bum nos Fawrth gan ddechrau Hydref 13. Mr Iwan Roberts, Pontrhythallt fydd y dalithydd, a'i bwnc fydd "Olrhain Achau". Atgoffir yr aelodau am yr Ysgol Undydd sydd i'w chynnal ym Mhlas Menai, Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 19 am 9.30 a.m. Yn ystod y bore ceir darlith gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd ar "Dŷ y Papur Newydd" ac yn y prynhawn y dalithydd fydd Mr Owain Owain, Caernarfon yn son am "Awen y Gwyddonydd". Y tâl am y cwrs, yn cynnwys cinio a danteithion eraill yw £7. Dylid cwblhau y ffurflen angenrheidiol a'i hanfon i Mrs Gwyneth Chick, Cwmyglo erbyn Medi 5, os yn bwriadu mynd i'r Ysgol Undydd hon.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL:** Mae rhaglen ddifys wedi ei threfnu ar gyfer tymor y gaeaf nos Lun, Hydref 26 gyda darlith hwyliog gan y Parch Huw Jones, Llanrhaeadr, Dyffryn Clwyd, cyn Weinidog Bethel, Penygroes a Chapel Tegid, y Bala cyn ymddeol.

Yn ystod y tymor ceir scwrs gan Mr Rhodri Prys Jones ar ei ymweliad ag Unol Daleithau America, 'Cawl, Crefft a Chân' yng nghymni Mr Alun Williams, Nantlle, sgwrsiau gan Mr Jack Thomas, Caernarfon, Mrs Mary Vaughan Jones ar ei ymweliad a'r Wladfa, a Mr John Elwyn Jones yn dwyn i gof rai o gymeriadau Dolgellau ers talwm. Yn ogystal ceir rhaglen i ddathlu canmlwyddant geni Syr T.H. Parry Williams. Fel y cofir cafwyd tymor hynod o lwyddianus y llynedd ac yn sgil hyn mae'r trefnydd wedi ychwanegu dau gyfarfod y gaeaf hwn, a da ddeall fod amryw o rai newydd yn bwriadu ymuno â'r Gymdeithas ym mis Hydref. Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Myra Turner, Collfryn, am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth Prif Adroddiad yn Eisteddfod Powys a gynhaliwyd yng Nghroesoswallt. Enillodd Myra £50 a Chwpan Goffa Idris ap Harri i'w chadw am flwyddyn.

**EISTEDDFOD BRO MADOG:** Bu'r cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn llwyddiant unwaith eto eleni i rai o'n pentrefwyr, a balch iawn ydym o'u llongyfarch. Daeth lolo Huws Roberts, Bodrida, i'r brig

Parhâd ar dud. 9

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

**J M JONES  
A'I FEIBION**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**Y SGWÂR, LLANRUG**

**Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,  
Cerrig o bob math ar gael.**

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)  
Y Felinheli 670124 (nos)**



gyda'i soned 'Er cof am T.J.M.' a chafodd ganmoliaeth uchel iawn. Limrig y dydd a ddaeth a'r wobwr gyntaf i Mr R. Gwynn Davies ac enillodd Joanna Marston, Blaen y Nant, y wobwr gyntaf gyda'i Obo yn y gystadleuaeth Chwythbrennau 15 - 19 oed.


Braint mawr i Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed, oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth "Llyfr Taith Byd Natur" o dan Adran Comisiynau yr Eisteddfod gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Arweinlyfr i fannau o ddiddordeb arbennig ym myd natur a bywyd gwyllt a ddisgwyliwyd a'r buddugol gyda canmoliaeth uchel oedd Elinor Gwynn o Abergwaun.

Limrig R. Gwyn Davies.

Pan fyddaf yn hen 'rwy'n gobeithio  
Y deil yr hen Satan i demtio  
A rhôdd yr hen frawd  
Pan ddaw ar ei rawd  
Y cyfle - â'r gallu - i syrthio.



R. Gwynn Davies



Iolo Huws-Roberts

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fisoedd Mehefin a Gorffennaf:- 1. Jean Jones, Llwyn Onn. 2. Eurig Wyn, Y fenni. 3. Mrs Hughes, Gwastadfaes.

1. Duncan Brown, Gwelfor. 2. Dr Miles, Trefeddyg. 3. Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed.



M. Vaughan Jones



Joanna Marston

ADREF O'R YSBYTY: Bu nifer yn cwyno yn ein mysg yn ystod wythnosau'r haf. Da yw deall eu bod erbyn hyn wedi dychwelyd gartref ac yn gwella. Cyfeiriwn at Capt. Jackson, Trigfa, sydd yn aros hefo'r mab, Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun; Mrs N. Williams, Cefn Du Terrace; Mr R.O. Jones, Tan y Waun; Mrs Nancy Williams, Bro Waun; Mrs Maria Williams, Bro Waun; Mrs G. Williams, Plas Glyn Arfon; Mr Joseff Jones, Gadda; Mr Aled Williams, Bryn Celyn; Mrs Roberts, Elwy House a Mrs Myra Turner, Collfryn.

MRS J. MORLEY WILLIAMS: Ar Gorffennaf 6 cynhaliwyd angladd Mrs J. Morley Williams, Fronllwyd. 'Roedd Mrs Williams, gweddwr Mr Huw Morley Williams, Arfon House, wedi byw yn y Waun ar hyd ei hoedfaith.

Bu yn amlwg yng ngwahanol sefydliadau'r ardal, a hyd y diwedd â diddordeb byw yn yr holl weithgareddau.

Bu Mrs Williams yn drysorydd Capel Moriah am gyfnod hir a bu'r gwasanaeth angladdol yn y festri o dan arweiniad y Parchedig John Glyn, Waunfawr, gyda gwasanaeth byr yn Amlosgfa Bangor.

Y WRAIG O'R WLADFA (PATAGONIA) AR YMWELIAD A'R WAUNFAWR

Yr oedd I.B. Griffith yn son amdani yn yr Herald fel hyn "Cyfarfod gwraig hyfryd ganol oed ar Stryd y Llyn, dim ond y hi ar babis heb ddechrau siarad, oedd heb air o Saesneg ar eu gwefusau y bore hwnnw."

Bu yma yn y Waun am bythefnos cyn yr Eisteddfod. Ni fu erioed o'r Ariannin o'r blaen, ac yr oedd wrth ei bodd yn clywed cymaint o Gymraeg ar y stryd ac yn y siopau. Bu hefyd yn yr ysgol, yng nghyfarfod anrhegu Elin a Meilir.


Aeth ei theulu i Chubut o Flaenau Ffestiniog ac o Beulah ger Aberteifi,

ond er holi ni chafodd ddim o'i hanes.

Mae Hawys Davies yn byw yn Trelew, Chubut, a Chymraeg a Sbeaneg yw ei hieithoedd hi. Tre a gafodd ei henwi ar ôl Lewis Jones o Gaernarfon yw Trelew, y fro arweiniodd y fintai gyntaf yno.

Ac mae yna gysylltiad arall rhwng Trelew a'r Waun - mae Mrs Glenys Williams, Glynafon yn cofio i Eluned Morgan - merch Lewis Jones - ac awdur "Dringo'r Andes" ddod i aros efo'i theulu yn Y Felinheli lawer o flynyddoedd yn ôl.

Gobeithio fod Mrs Williams yn teimlo yn well ei hiechyd erbyn hyn, ar ôl cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd.



I'W GYHOEDDI DDECHRAU MEDI - PWY BIAU NHW?

Ddechrau Medi 1987 cyhoeddir llyfr lliwgar i'r plant lleiaf, **Pwy Biau Nhw?**, gan Gyhoeddiadau Mei, Penygroes.

Fersiwn Gymraeg o lyfr Saesneg gan Rod Campbell, a droswyd i'r Gymraeg gan Emily Huws yw hwn, a gyhoeddir ar yr un pryd â'r un Saesneg.

Hwn yw'r llyfr cyntaf i gwmni Campbell Blackie ac ymunodd Cyhoeddiadau Mei a'r project yn y dechrau cyntaf.

Dyma'r tro cyntaf i Gyhoeddiadau Mei gydweithio a chyhoeddwr arall, ac maent ar hyn o bryd yn trafod gyda chwmni o Gatalonia ynglyn â chyhoeddi llyfrynau bychain lliwgar i blant.

**PWY BIAU NHW? Addasiad Cymraeg gan Emily Huws**  
ISBN 0 905775 91 0 Cyhoeddiadau Mei, Pris £2.50

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?  
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFUE'**

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

**FRON HEULOG, DINORWIG**

Ffôn: Llanberis 871376

**GWYNETH ROBERTS**

**84 Stryd Fawr, Llanberis**

**Ffôn: 870491**

PAENT, PAPUR WAL  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau

Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati,  
Peis, Rholiau Sosej,  
Pasteiod, Teisennau Hufen,  
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**

**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

**E.W. Pritchard  
CENTRAL GARAGE  
Llanberis**

**Ffôn: 870202 a 870272**

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI



## TRIDIAU O'R GWERSYLL

Dydd Sul: Mawrth 18ed, 1945

Rôl brecwast cartrefol, 'roeddem a'n bryd ar fynd i'r Amgueddfa Hynafiaethau yn ardal felen, liwdydd. Cawsom gyfarwyddyd gan y Rhingyll hynaws sut i gyrraedd y lle. Allan ar y stryd, yng ngolau haul llachar y bore, 'roedd car dŵr yn chwistrellu i ostwng y llwch ar ddechrau'r dydd. Llusgem ymlaen dow-dow gan wyllo a syllu ar ddieithrwch y lle, gefn dydd golau.

Toc daethom i sgwar lle'r oedd plismon, o ryw fath, yn tywys traffig. Welais i erioed blismon tebyg! Gwallt du a mwstas a barf drwchus ar ei ên a'i gernaau â golwg chwyrn arno. Gwisgai helm laslwyd â dwrn gloyw ar ei chlopa gyda chyrten melyn dros ei war i 'mochel y tes. Siwt laslwyd o frethyn garw amdano, clamp o wn wrth ei wregys a 'Bandalier' dros ei ysgwydd, oedd ei ddiwyg. Ar egwyl yn y gorchwyl, holasom am y bws ond ni ddeallai'r brawd Saesneg. O'i holi mewn Ffrangeg bratiog cawsom y wybodaeth a geisiam.

Buom yn leotran am sbel ar gwrr y sgwar gan syllu ar dwrr o bobl wedi cynhyrfu'n arw am rhywbeth. Nid aethom draw i chwilio'r achos, ond toc deallsom mai dienyddio cyhoeddus oedd yno. Torrid pen carcharor euog, am drosedd digon dislyw, â chleddyf mawr dau finio nes tasgu o'r gwaed fel chwistrell o'r gwythi mawr. Y fath fwystfileiddiuch! Caswom gryn ysgytwad o feddwl mor anwar yw arferion Islam.

Dyma'r bws o'r diwedd. Cerbyd cyntefig, dau ddosbarth gyda rhagddor yn y canol; dim gwydr o gwbl yn y ffenestri, oedd hwn. Didolid y teithwyr yn ôl eu lliw, y gwyn ymlaen yn y dosbarth cyntaf! Arabiaid, gyda phenwisgoedd brithliw yn chwifio trwy'r ffenestri, oedd yng nghefn y bws. Teithio i lawr i ardal y wawr felen oeddem, lle'r oedd yr awyrgylch yn arw gyntefig. Wedi aros wrth yr Amgueddfa ac oedi ger siop saer ar y palmant, gwelsom hen ŵr yn ei goban garpiog, yn eistedd o flaen cwpwrdd anferth â'i ddorau yn agored ar y mur i ddangos ei gynhyrchion. Gweithiai droedlath gyda'r mwyaf cyntefig a welais i erioed. Rhwng bys a bawd troednoeth daliai gŷn yn erbyn bwlyn pren. Llifiai yn ôl a blaen ar fwa, wedi ei gordeddu am y rhôlbren, i naddu y bwlyn yn grwn; Yna papur bras i'w lyfnahu ar furff olwyn fach. Gwnai bentyrrau o'r rhain at rhyw waith o'r eiddo.

Aethom i mewn i'r Amgueddfa o'r gwres tanbaid a phrynu lyfryn disgrifiadol. Ddoedd y

gwrthrychau, er mor hen, ddim mor ddeniadol â'r hyn oedd yng Nghairo. Eto dyma grud gwareiddiad, yn ôl yr haneswyr. Difyr iawn oedd cael cip ar arferion y byd cyntefig yn ôl y celfi a'r llesti a ddangoswyd yno. Anhygoel oedd gweld yr olgyfa o feddrod pennaeth o Tel el Ubaid lle aberthwyd holl osgordd y llys i wasanaeth eu harglwydd dros byth.

Aethom yn ôl ar fws am ginio yn y Y.M.

Yn y prynhawn aethom i ganlyn y Rhingyll o Gymro i wasanaeth Cymraeg. Anodd credu fod gan yr Hen Gorff gapel yn Islam! Na, nid mewn addoldy, ond yn nhŷ y Barnwr Lloyd, lle'r ymgynnull Cymry Baghdad, unwaith y mis, i fwynhau cymdeithas a gwir groeso Cymreig. 'Doedd yno 'run pregethwr ond arferent gadw oedfa anghydfurfiol yn y wlad adwythig hon!


Roedd blas ar ganu'r hen ffefrynau â gwraig y Barnwr wrth y piano. Cawsom groeso - te Cymreig â sgwrs ddiddan wrth y bwrdd. Mwynhad pur oedd yr ymweliad hwn; llecyn bach o Gymru ymysg erston.

Dydd Llun: Mawrth 19eg, 1945  
Codi'n fore, achael brecwast teilwng

Rhaid oedd ffarwelio 'r Rhingyll caredig o Gymro a wnaeth ein haros yma mor ddifyr. Wrth anelu am Orsaf Rheilffordd Baghdad gwyddem, y byddai yno gharri yn cyfarfod y trên dros nos o Basrai Mosul a'r Gogledd. Bu'n rhaid cyflwyno ein hunain eto yn Swyddfa'r Town Major a chael stampio ein papurau ein bod wedi gadael Baghdad. Roedd prysurdeb mawr ar iard y stesion; rhai yn symud i'r Gogledd ar y trên, eraill yn aros am drên i Basra a'r Gwlff. Mae ein mwyniant ar ben! I'r wagen-do â ni at y dychweledigion. Toc, tua hanner awr wedi deg dyna gychwyn am Dhibban.

Taith ddiflas, undonog trwy'r diffeithleoedd a chyrraedd y gwrsyll yn ôl at amser cinio.

R. Williams, Llanrug



### BARA CAWS YN DATHLU EI BENBLWYDD YN 10 OED

Sioe gymuned sydd yn addas ar gyfer y teulu i gyd yw "Tair Cainc a Hanner" yn defnyddio symud a cherddoriaeth, a thrwy ddefnyddio tair cainc gyfoes yn arddull yr hen fabinogi, yn gwyntyllu rhai o broblemau Cymru heddiw. Bydd yr arddull llwyfanu yn newydd a ffres a bydd y chwarae yn gwibio o realaeth bywyd i ddyfnderoedd tywyll a chymhleth y dychymyg. Ysgrifennwyd y sioe gan Valmai Jones a Cefin Roberts.

Ym mis Medi bydd Tair Cainc a Hanner yn teithio o amgylch Cymru gyfan - Medi 1af - Medi 19.

Bydd gweddill y flwyddyn yn un brysur iawn hefyd gyda thaith arall i'r gymuned ym mis Chwefror - Mawrth. Ym mis Hydref bydd y cwmni yn edrych ymlaen at "Wyl Awduron Newydd" a gynhelir Hydref 19-24 yn stiwdio ddrama Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, lle y llwyfanir pedair o ddramau gan awduron newydd. Yn ogystal bydd darlleniadau o ddwy ddrama newydd

arall, sioe dafarn a chyngerdd. Mae'r Wyl arbennig hon yn dilyn penwythnosau 'sgwennu a gynhaliwyd gan Bara Caws ym mis Mawrth eleni. Hyd yma mae'r cwmni wedi bod yn ffodus iawn ac wedi derbyn nawdd tuag at gynnal yr Wyl gan S4C, B.B.C., Teledwyr Annibynnol Cymru, Cronfa M.L. Powell, y C.E.G.B. a Chymdeithas Celfyddydau'r Gogledd. Bydd mwy o wybodaeth am yr Wyl yn nes at yr amser.

Gobeithio'n arw y byddwch chi ddarllenwyr Eco'r Wyddfa yn ymuno â ni yn y dathlu.

TAIR CAINC A HANNER: Amser 7.30

Nos Fawrth, Medi 8ed, Ysgol Brynrefail, Llanrug

Nos Fercher, Medi 9ed, Neuadd J.P. Bangor

Nos Iau, Medi 10ed, Neuadd J.P. Bangor.

Bydd wedyn yn mynd ar daith i'r de.

### CANMLWYDDIANT CAPEL CEUNANT

Cynhelir Cyfarfod Arbennig i ddathlu Canmlwyddiant Capel Ceunant

Nos Wener, Medi 25ain am 6.30 o'r gloch

Y Llywydd: Y Parchedig John Morris B.D.

Siaradwyr gwadd:

Parch Meirion Roberts, Llandudno

Parch Ifor Rowlands, Caernarfon Parch W.O. Roberts, Llanrug

Darperir lluniaeth ym Mhlas Tan Dinas.

Cysyllter â Miss Eirlys Jones, 'Y Garth' ar unwaith.

Ffôn: Waunfawr 262

Croeso cynnes i bawb.



22 BRYNTIRION

PENISARWAUN

Ffôn:  
Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos  
Gwasanaeth Maes Awyr  
a Phorthladd  
Gwaith Contract

## GERAINT OWEN

Gosodwr  
carpedi a phob  
math o lorïau

Cil-y-Mynydd  
WAUNFAWR

Ffôn:  
Waunfawr 552

## Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref, cigoedd parod  
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist  
MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!



# PYSGOTA

Roedd bachyn pysgota yn costio ceiniog yn siop Brymar, ond anamal y gallem ni fechgyn fforddio un, ac felly doedd dim amdani ond defnyddio bach pin. Hawdd oedd plygu pin yn ei hanner, ac yna hefo carreg, cnocio y blaen miniog i mewn i wneud tegell. Fe wna eda ddu y tro yn lle lein, a oedd hefyd yn costio ceiniog. Wedi'r cwbl, mynd i ddal sil-dons roedden ni. Ar nosweithia haf, safem yn llawn asbri gobeithiol, rhwng Y Landing a Chae Beal, hefo gwialen sycamorwydden a phot jam. Wedi dal y creaduriaid bach lliwgar, aem a nhw adra, i farw'n araf ar lintar y ffenast. Nid oedd gobaith i ni eu cadw'n fyw, ar ôl eu hamddifadu o'u rhyddid a'u bwyd naturiol. Wrth fynd dipyn yn hyn, codem ein gorwelion, a cherddem fel byddin heibio ffarm Bron Eryri, i wacau Afon Goch o'r brithylliaid bychain oedd yn trigo ynddi, ond bach neu beidio, 'roedd blas arbennig ar frithyll roeddan ni wedi'i ddal ein hunain.

Yn ddiweddar, roedd Tom Peris yn fy atgoffa fel y byddem yn palu'r gerddi i gael digon o bryfaid genwair i ddal llond trol o bysgod, a thorri gwialennau yng nghoed Bryn Du, er mawr ofid i Geoff Owen, y perchennog. Druan o'r pysgod. Mae'n siŵr eu bod yn ein clywed yn dwad o bell, ac yn ffoi am eu bywydau, oherwydd ychydig iawn iawn oedd yn cael eu dal. Yn wir, os oedd un ohonom ddigon lwcus i fachu 'sgodyn, roedden ni i gyd, mewn buddugoliaeth yn ei hebrwng adra.

"Coda."

"I be?"

"I ddwad hefo fi."

"Dydw i ddim isio dwad."

"Coda, mae rhaid i ti."

Ar ddechra tymor pysgota, byddai fy mrawd yn fy nhynnu allan o'r gwely. Gwsigwn yn ddigon anewyllysgar. Pa fachgen ysgol sy isio codi awr yn gynt ar fore oer glyb. Ceisiwn fwyta tamed o frechdan wrth eistedd ar far ei feic, tra'n rhuthro i lawr y gelltydd i'r penra. Yna trwy giatia'r rheilffordd a thros y dolydd, gan godi'r beic tros y walia llechi, a neidio tros Afon Stesion.

Yng ngheg Afon Pont Bala, byddai fy mrawd wedi gosod tair neu bedair lein nos - pethau hollol anghyfreithlawn yn ôl deddf gwlad, ond yn hollol deg yn ôl hogia'r penra, oherwydd bwyd oedd pysgod. Yn ofalus tynai ddwsin ney fwy o frithylliaid braf i'r lan, ac ambell i yslywen a fyddai wedi tanglo pob peth i fyny. Wedi'u rhoddi hwy yn ofalus mewn hen rycsac brown, gosodai ef dros fy ngwar a'm siarsio "Cer adra yn syth, a phaid a gadael i'r plisman dy

ddal."

Tra byddai ef yn brysio i'r chwarael cyn caniad, byddwn inna yn ei heglu hi, yn ôl dros y caeau, gan ddilyn y ffordd lleiaf amlwg, i fynd a'r helfa adra, heb fynd i'r ddalfa fy hun.

Ches i erioed fy nal, ond hyd heddiw, does gen i ddim syniad beth fyddwn wedi'i ddweud fel esgys, pe tai'r sarjant neu'r plismon wedi dod ar fy ngwartha. Allwn i ddim yn hawdd ddweud fy mod yn hel mushrwm ym mis Mawrth. Yr un pryd, credaf nad oeddwn ar ben fy hun, a bod eraill hefyd yn eu ffyrdd dirgel yn gwneud yr un peth. Efallai fod yr heddlu yn ddynion caredig a deallgar. Wedi'r cwbl, roedden nhw hefyd yn gig a gwaed. Mae'n bosib bod rhai o fechgyn y penra yn dal i osod ambell i lein i lawr o hyd, ac mi ydw i'n siŵr y gallwn i ddeud ym mha lefydd hefyd.

Ond i droi yn ôl at yslywod. Dydw i ddim wedi bwyta un er pan oeddwn yn fachgen. Yn haf hyfryd 1976, treuliodd fy ngwraig a minna bythefnos yn nofio a thorheulo ar lan Llyn Gwynant. Yr un amser bob dydd fel cloc, ehedai mulfran i lawr



o gyfeiriad Pen Gwryd, plymio i ddyfnderoedd y llyn, a chodi i'r wyneb gyda yslywen yn ei big, nid brithyll ond yslywen bob amser. Yna, yn hollol ddidrafferth, llynca hi yn y fan a'r lle, a ninnau y gynulleidfa yn gweld y gynffon yn ysgwyd yn yr awyr, tra byddai pen y truan hanner ffordd i lawr gwddf yr aderyn.

Hawdd oedd paratoi yslywen i'w bwyta. Wedi i un ohonom agor a llau'r cyllau, byddai fy mam yn tynnu'r croen i ffwrdd fel croen

banana, taflu'r pen i'r gath, rowlio'r corff i fyny fel swiss-rol, a'i ffrio mewn menyn. Coeliwch fi, doedd dim ond asgwrn noeth ar fy mhlath wedi i mi ddarfod fy swper.

Fe roes i'r gorau i bysgota ar ôl ymweld â ffarm frithylliaid. Pwy yn y byd waria oriau ym mhob tywydd yn ceisio dal rhyw ddau neu dri, ar ôl gweld perchennog y ffarm yn eu codi allan mewn rhwyd, wrth y dwsin.

Nid y fi.

Goronwy Owen

## CLWB ERYRI, LLANBERIS A'R CYLCH

Bydd Tymor y gaeaf o'r Clwb yn dechrau Nos Wener, Hydref 2 yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis pan y ceir sgwrs gan lywydd y tymor, Mr Arwel Jones. Llywydd y noson fydd Dr Eurwyn Lloyd Evans, ac yn ystod y cyfarfod fe delir teyrnged i'r diweddar Owen Humphreys, Nant Peris gan y Parch. Trefor Lewis. Bydd angen ethol aelod newydd yn y cyfarfod hwn.

## TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys,

DYMUNIADAU GORAU: Anfonwn ein cofion caredig a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr John Humphreys, Caer Maen sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol.

LLONGYFARCHIADAU i Mr William E Thomas, Bronant ar ddathlu ei

benblwydd yn 80 mlwydd oed ar Awst 9ed. Troeon dedwydd eto i'r dydd Mr Thomas.

DYMUNIADAU da i blant y fro sydd a'u gwyliau ysgol ar fin dod i ben ac amser ail-afael mewn gwaith ysgol wrth y drws, rhai yn newid dosbarth, rhai yn newid ysgol, eraill yn cychwyn gyrfa newydd mewn coleg,

heb anghofio rheiny â dydd pwysig iawn o'u blaen - dydd cyntaf yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r plant rheiny a eisteddodd arholiadau a llwyddo. Mwy o lwyddiant eto i'r dyfodol.

## CEUNANT

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Cynrig Baxter, Pant Hyfryd ac i Gwenno Parri, Morwel ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Safon O.

**TAC SIS**  
**AMBERLINE**  
**BETHEL**

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

**Ffôn: (93) 670555**



**CRIB  
COCH**

**Y SGWÂR, LLANRUG**  
**Ffôn Caernarfon 76772**

**TRIN GWALLT I BAWB**  
**O'R TEULU GAN JEN**

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser



# LLANRUG

**Gohebydd:** Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

**YSGOL SUL CAPEL MAWR:** Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau wedi gwylliau'r haf ar ySul, Medi 6. Byddwn yn cychwyn ar arbrwf drwy gynnal yr Ysgol Sul yn y bore am 10 o'r gloch. Gofynnwn i'r plant ddod i'r capel i wasanaeth dechreuol yr oedfa dan arweiniad y Gweinidog, Y Parchedig John Morris, B.D., ac yna ymneilluo i'w dosbarthiadau yn y festri yn ystod y bregeth. Gwahoddwn y rhieni i'r oedfa gyda'i plant, a phwysleisiwn mai arbrwf am gyfnod yw hyn. Bydd dosbarth Mr Iolo Llywelyn yn cyfarfod am 11 o'r gloch, yn union wedi oedfa'r bore, a dosbarth Mr John Wyn Owen yn cyfarfod am 2 o'r gloch.

**PLAID CYMRU (CANGEN LLANRUG A'R CYLCH):** Yng nghyfarfod blynyddol y gangen ail etholwyd y swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd - Phyllis Ellis; Is-gadeirydd - Leslie Larsen; Trysorydd - Gwyndaf Jones; Ysgrifenyddion - Olwen Llywelyn a Nan Humphreys; Ysgrifennydd aelodaeth - Vera Williams; Trefnydd Clwb Cant - Goronwy Hughes.

Mae'r tâl alodaeth yn ddyledus a bydd y casglwyr yn barod i dderbyn eich tanysgriadau yn ystod y mis nesaf. Atgoffwyd amryw ei bod yn adeg adnewydu eu haelodaeth o'r Clwb Cant, ac yn gyfle i eraill ymaelodi o'r newydd.

Bydd cyfle i aelodau'r gangen fynd i Theatr Gwynedd, Bangor i weld perfformiad o "Lle mynno'r gwynt" gan John Gwilym Jones, ar Nos Fercher Hydref 7. Mae'r tocynnau i'w cael gan yr Ysgrifenyddion. Cysylltwch â Waunfawr 200 neu Caernarfon 5668 cyn gynted ag y bo modd.

**LONGYFARCHIADAU** i Mrs M E Williams, Afallon ar ei llwyddiant yn arddangos blodau yn Sioe Gogledd Cymru.

**MARWOLAETH:** Fore Llun, Mehefin 15 yn ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon bu farw Mrs Ellen Foulkes Williams, 16 Hafan Elan yn 90 oed. Hi oedd yr olaf o hen deulu y Llys, Brynrefail a chyn symud i Hafan Elan chwe mlynedd yn ôl bu'n byw ar hyd ei hoes ym Mrynrefail. Cymerai Mrs Williams ddiddordeb mawr mewn sawl agwedd ar ddiwylliant a pharodd ei brwdfrydedd a'i sel diffuant dros y capel hyd y diwedd. Yr oedd ganddi gof eithriadol a'i hatgofion o ddyddiau cynnar yn y fro bob amser yn denu gwrandawriad. Bu'n ddisgybl i'r bardd R. Williams Parry pan oedd yn athro yn hen Ysgol Sir Brynrefail, a difyr oedd ei

hatgofion o'r amser hwnnw hi yn byw yn y Llys ar bardd yn trigo, led cae, ym Mrynderw bryd hyn. Cyn priodi bu'n athrawes ym Mangor a Chaernarfon. Bu'r angladd ddydd Gwener, Mehefin 19 gyda gwasanaeth yng nghapel Brynrefail, ble bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd cyn symud i Lanrug, ac yna ym mynwent Llanddeiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion John Morris a W.O. Roberts gyda Miss Lowri Prys Roberts wrth yr organ.

**DIOLCH:** Dymuna teulu y diweddar Mrs Ellen Foulkes Williams, 16 Hafan Elan ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Diolch hefyd i feddygon Waunfawr, y nyrsus lleol, y Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts a Mr a Mrs Arthur Jones, Hafan Elan.

**PRIODAS:** Dydd Mercher, Gorffennaf 15, priodwyd Elfyn Wyn Owen, 9 Hafan Elan a Carys Rowlands, New Street, Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog y Parch John Morris B.D. a'r Parch Isaac Jones, B.A. B.D. Abergele. Y gwas oedd Mr Richard Roberts, Caeathro ar forwyn oedd Miss Alison Lee-Scott, Rhosneigr. Yr ushers oedd Mri Llion ac Euros Jones, Abergele. Yr organyddes oedd Mrs Megan Williams, Bron Eryri. Trefnwyd y blodau gan Mrs Dilys Jones, Hafan Elan, cafwyd y brecwast priodas yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.

**DIOLCH:** Dymuna Elfyn a Carys Owen ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion ar dymuniadau da, ar achlysur eu priodas. Diolch yn arbennig i Mrs Megan Williams am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i Mrs Dilys Jones am drefnu'r blodau.

**YCHWIORYDD:** Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn lau Awst 20ed. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Smith, Llechwedd. Darllenwyd rhai o weithiau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol gan y llywydd Mrs J Williams, Bod Fair. Diolchwyd iddi gan Mrs Williams, Llys Awen. Croesawyd Mrs N Pritchard (Glanfa) gynt o'r Rhyl. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Thomas, Dolwar, a Miss E W Jones, Hedsor Villa. Bydd y cyfarfod nesaf Medi 17eg am 2 o'r gloch.

**CYDYMDEIMLAD:** Cydymdeimlir â theulu y diweddar Mrs Martha Morrison, 11 Hafan Elan, yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

**CYMORTH CRISTNOGOL:** Casglwyd £218 yn diweddar tuag at Gymroth Cristnogol. Dymuna'r Cyngor Eglwysig ddiolch i bawb a fu'n casglu ac i bawb a gyfrannodd.

## Trip Ysgol Feithrin



*Aeth mamau a phlant yr ysgol feithrin ar drên bach Llanberis ddydd Gwener, Gorffennaf 10ed. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda phawb wedi mwynhau eu hunain. Arhoswyd wrth ochr y llyn i gael picnic lle cafodd y plant siawns i chwarae cyn mynd yn ôl ar y trên i'r stesion i brynu anrheg cyn dychwelyd adref.*

**LLONGYFARCHIADAU:** i Caryl Pugh ac Ellis Wyn Jones ar achlysur eu priodas yng Nghapel Mawr Llanrug yn ddiweddar. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Mrs Anwen Roberts.



**LLONGYFARCHIADAU:** i Olwen Hughes Jones, SRN, RM., Bryn Afon ar ei phenodiad yn Chwaer ynyr Uned Lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Dewi Evans, mab Margaret a'r diweddar T. Evans, Lloc, 12 Ffordd Glanffynnon, ar ei benodiad i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dyfed. Bu yn gweithio am gyfnod o flynyddoedd i Gyngor Sir Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Griffith Williams, Lôn Las ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Keith Jones, Dwyrws, mab Mr a Mrs James Jones ar ennill gradd anrhydedd B.Sc. yn ddiweddar.

**CYMDEITHAS LENYDDOL:** Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr yn ystod mis Gorffennaf i drefnu rhaglen am y tymor 87-88. Swyddogion am y tymor yw: Llywydd Mr E Roberts, Is-Lywydd Mr J W Owen. Trysorydd Mrs M E Jones. Ysgrifenyddion Mrs J Davies a Mrs M Parry. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor ar nos lau 15ed Hydref, gyda noson o adloniant

gan Gantorion Moriah.

**CYMDEITHAS AMBIWLANS SANT IOAN:** Cofrestrwyd 14 o blant cymdeithas Ambiwylans Sant Ioan yn gadlanciau yng Nghapel Mawr, Llanrug yn ddiweddar. 'Roedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog y Parch John Morris. Dyma'r rhai a gofrestrwyd: Leon Davies, Gavin Williams, Nia Griffith, Sioned Jaques, Anwen Jones, Nia Jones, Amanda Maloney, Ellen Parry, Nona Roberts, Sonja Rochelle, Gwenan Roberts, Catrin Thomas, Wendy Rhomas, Catherine Williams. Mrs Mair Jones, Ogwen oedd yr organyddes.


Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaetholym Mro Madog bu pedwar tîm o blith y cadlanciau yn llwyddiannus. Gyda Nyrsio Cartref: 1. Bethana Tracy; 2. Iola a Michelle; 3. Sara a Judith. Gyda'r Adran Ambiwylans: John, Cemlyn, Bryn Thomas a Bryn Jones. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

**EISTEDDFOD  
BENTREF  
LLANRUG  
Pnawn a Nos  
Sadwrn  
Hydref 10ed  
Yn Neuadd Ysgol  
Brynrefail**

Testunau yn rhad ac am ddim yn y siopau lleol

**DALIER SYLW:  
Cystadleuaeth 2.  
Cyfarfod yr Hwyr.  
Unawd DAN 16 oed.**

## BILL ac EILEEN GRIFFITHS




**Antiques  
Ivy Cottage  
BETHEL**

**Ffôn:  
Y FELINHELI 670556**

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

Telir prisiau da  
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD  
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON  
LLANRUG  
(ERIC MORRIS)**

**Ffôn: Caernarfon 5175**



# Agor Ffiniau'r Gorffennol

## "HEN FEIBL FY NAIN"

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Gan Mary Silyn Roberts

(Allan o Lleufer - Cyfrol XX - Gwanwyn 1964 - Rhif 1)

Un o Tyn'r Ardd, Nant Bwch yr Heyrn, oedd nain Mrs Silyn Roberts ar ochr ei mam, wedi ei phriodas ag Evan Williams, bu'n byw yn Tŷ Newydd, Llanrychwyn, hyd ddiwedd ei hoed.

"Byddai Dydd Sul Nain yn dechrau am chwech o'r gloch nos Sadwrn", meddai Mrs Silyn Roberts, "Bob nos Sadwrn, am chwech o'r gloch, mi fyddai Nain yn hel i phethau i gyd at ei gilydd i'r faged wno fawr, a hongian honno oddi ar ddistyn to'r gegin tan fore Dydd Llun.

Ond un Dydd Sul, mi ddoth Nain adre o'r Capel â golwg gynhyrfus a phenderfynol arni, ac er braw i'r plant i gyd, dyma hi'n estyn y faged wno oddiar y bach, ac yn tynnu'r siswrn mawr allan. Wedyn dyma hi'n gafel yn nalennau canol yr Hen Feibl Mawr oedd bob amser yn agored ar fwrdd y gegin, ac yni torri nhw allan. "Roedd y pregethwr yn deud yn i bregeth," meddai hi, "Nad oedd hwn ddim yn rhan o'r Beibl, ac na ddylai o ddim bod i mewn ynddo, rhaid i losgi - o!". Ond welodd neb ddim beth wnaeth hi a'r bwn del dalennau hynny o'r Apocryffa chwaith.

Fy modryb Liz oedd yn dal Tŷ Newydd ar ôl marw Taid a Nain o fewn rhyw chwe mis i'w gilydd. Tŷ to gwellt oedd o yn i hamser nhw, ond yn amser Modryb mi godwyd peth ar y waliau, a rhoi to llechi arno. Pan fyddai ysgolion Llundain wedi cau bob mis Awst, fe gaem ninnau blant fwynhu gwyliau'r Haf, am dair wythnos neu fis ambell dro, yn Tŷ Newyddefo Modryb. Byddai'n sôn weithiau am Nain a'r wisg sidan oedd ganddi. Yr oedd hwn sôn fod gan Nain, pan oedd yn ifanc, wisg sidan dew, hardd, oedd yn sefyll i hun. 'Roedd honno'n hongian yn yr hen gist fawr yn y siambar - neu'r "Cwpuwr Press". Lle i gadw dillad gorau oedd hwnnw, a dim ond y drysau uchaf yn agor, ac ni feiddiai neb ond Anti Liz ei agor erna fyddai 'na byth glo arno. Mi fûm i'n dyheu llawer am gael gweld yr hen ffroc sidan, ond fedrais i erioed ofyn i Modryb i dangos hi imi. Ond un diwrnod aeth Modryb i lawr i'r ffair yn Llanrwst, a ngadael i gartre i ofalu am y plant. Mi fentrais i mewn i'r siambar, ac agor drws y gist, ac yno 'roedd wisg sidan fy Nain yn hongian yn i holl ogoniant - ffrog dywyll braidd, yn sgleinio'n olau tra 'roedd y drws yn agor. Wedyn, mi es i mewn i'r gist, ac mideaillais ryw becyn sgwar, hir, ar y gwaelod, ac mi codais o. Dalennau obapur oedd yno, wedi'u plygu a'u gwasgu'n dyn. Wedi imi hagar nhw, a gweld mai adnodau oedd y cwblwl, mi gofiais am stori'r siswrn hwnnw gynt; ac am y dalennau yr oedd Nain wedi i torri nhw allan o'r hen Feibl. Ddarau Modryb ddim ffeindio mod i wedi bod yn y siambar, ond un diwrnod mi ddywedais wrthi am y swp papurhwnnw oedd ar waelod y gist. Aeth hithau i'w nhôl nhw, ac yno yr oedd yr Apocryffa i gyd ond y ddwy ddalen gynta. Chefais i ddim drwg gan Modryb am browla, efallai ei bod hi'n falch o gael hyd i hen ddalennau'r Apocryffa, acmi roth y dalennau i mi. Wedi hynny mi roth hen Feibl Mawr fy Nainimi hefyd, ac mi gadwais Yr Apocryffa tu mewn iddo. Ond yr oedd y ddwy ddalen gynta ar goll. Wn i ddim beth ddaeth o'r hen ffroc sidan yny diwedd.

Wedi i Modryb fynd i oed, mi benderfynodd adael Tŷ Newydd, a mynd i fyw ar lawr y dyffryn yn Nhrefriw. Mi brynodd Silyn y lle ganddi, ac roedd o wedi meddwl i wneud o'n gartref innii gyd fel teulu. Panoedd Modryb yn symud i dodrefn a'i phethau o Tŷ Newydd, mi gliriodd allan bentwr o hen bapurau a mân lyfrau oedd wedi hel yno yn ystod y blynyddoedd, ac 'roedd hi am

i losgi nhw. Ond, trwy drugaredd, mi ddoth Silyn adre cyn iddi roi tân ynddyn nhw, ac mi chwiliodd drwyddyn nhw, gan bigo allan lawer peth yr oedd yn werth ganddo i gadw o. Ac yno yng nghanol yr holl bentwr, yr oedd y ddwy ddalen gollo'r Apocryffa o Hen Feibl fy Nain!"

"Stori ddiddorol dros ben Mrs Roberts" meddwn innau. "Wyddoch chi beth oedd yn rhedeg trwy meddwl i wrth ichi adrodd yr hanes? Beth fuasai eich Nain yn i feddwl tybed, petasai rhywun wedi dweud wrthi y pryd hwnnw- wedi rhagfynegi iddi - y byddai ŵyr i John Jones, Talysarn, yn darllen darn o'r Apocryffa uwch ben bedd eich gŵr chi ei hwyres hi? Ydych chi'n cofio llais George Davies yn darllen y geiriau, 'Canmolwn yn awr y gwŵr enwog', uwch ben y bedd yng ngladdedigaeht Silyn? 'Roedd gwrando arno fel gwrando ar swn organ fawr".

"Ydw, rydw i'n cofio dda iawn," atebodd hithau. "Ac mae'r Apocryffa i gyd yn gyfan yn awr yn ôl yn hen Fibil fy Nain. Ac i mi, y tudalennau a fagodd liw henaint o dan ôl ei dwylo hi wrth ddarllen ac adrodd y penodau i'w phlant, bob yn ail â pharatoi prydau i'r teulu, ydyw rhai o'r pethau annwylaf sydd yn fy meddiant i heddiw".

Annwyl Mrs. Williams

Cefais bleser mawr yn canu 'Myfanwy' unwaith eto o'r golofn yn Eco'r Wyddfa. Diolch amdani.

'Rwy'n cofio rhyw Sais o Sir Efrog yn canu Myfanwy ar dop ei lais. Y tro nesaf y gwelais i o dywedodd ei fod wedi bod yn y Fyddin ar Forfa Conwy am fisoedd tua 1942. Os gwn i fedrwn i gyhuddo John Betcherman a'r canwr o lôn lardrad yn eu canu nhw? Byddai Wil fy mrawd yn cyboli hefo englynion ac yn cystadlu yn llwyddiannus. Cefais hyd i lythyr ganddo tua deng mlynedd yn ôl ac yn ennill yn Eisteddfod Sarn, Pwllheli. 'Ar ei ben ei hun' meddai'r beirniad, Brynmor Richards o Rhyl. Dyma'r englyn —

Haf Sych 1976

Ynfyd oedd mynd i'r Gronfa — am ddiod

Neu am ddŵr i sgota

Ni chewch chwi'r un sychach Ha'

'Rwy'n siwr yn y Sahara!

A dyma englyn eto yn Eisteddfod Llanegryn. Y beirniad oedd Selwyn

Griffith, Bethel. Miss World oedd y testun.

Y ddelfaf yw'r ffugddoli — gosgeiddig Ysgwyddau'n bywiogi,

Hen ŵyr a'r llanciau heiny Rhagi hon wna fy ngwraig i.

Ffug-enw 'Gwenwyn'.

Hoffwn newid y syniad yn y llinell olaf a'r ffugenw hefyd.

Mae llythyr Wil wedi ei ddyddio 24.6.77.

Byddwn yn cael teisen gwsberis ar y penblwyd bob amser.

Diolch eto am y canu. Ydych chwi yn gyfarwyd â geiriau 'Wele cawsom yn Bethesda' fel y dywedai Wil Becar ers talwm? 'Ti wyddost'.

Yn gywir iawn,  
Jack Roberts

19 Hampton Court,  
Winklebury,  
Basingstoke,  
Hants.

Fel hyn y cyfarchwyd ein colofnydd gan Ieuan Wyn, Prifardd y Gadair yn Eisteddfod BroMadog eleni:—

Mary Lloyd Williams

Hael ei llaw i gynnal llên, a'r Gymraeg

Mor wychmewn ysgrifen;

Ei dawn hi nid â yn hen,

Llais ieuanc sy'n 'Llys Awen'.

Ieuan Wyn.

CYNGOR Y CELFYDDYDAU  
AR FY MYW0

Y mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer ysgrifennu hunangofiannol gan ferched sy'n byw yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor drefnu cystadleuaeth o'r math hwn: ymateb yw i'r cynnydd mawr sydd wedi bod yn ddiweddar mewn ysgrifennu a chyhoeddi gan ferched yng Nghymru. Gofynnir i ymgeiswyr lunio ysgrif hunangofiannol rhwng 5,000 a 10,000 o eiriau am unrhyw gyfnod yn ei bywyd. Gall yr ysgrif fod yn Gymraeg neu yn Saesneg a disgwylir iddi gyflwyno profiad personol mewn ffordd graeadol a fydd yn apelio at ddarlennydd cyffredin. Cynigir gwobrau o £500, £300, a £200 yn y ddwy iaith, ac y mae Honno, y Wasgi Fenywod Cymru, yn gobeithio cyhoeddi casgliadau o'r ysgrifau gorau.

Y beirniad ar gyfer y gystadleuaeth Gymraeg yw'r nofelydd a'r newyddiadurwraig, Meg Elis (awdur I'r Gâd, Carchar a Cyn Daw'r Gaeaf) a Manon Rhys, sydd wedi golygu chwe chyfrol yn y gyfres hunangofiannol, 'Cyfres y Cewri, ac ysgrifennu nifer o ddramau a sgriptiau i'r teledu. Beirniad yr ysgrifau Saesneg yw'r nofelydd Siân James (awdur A Small Country, Another Beginning, Dragons and Roses, etc.) a Jill Miller, a ysgrifennodd You Can't Kill the Spirit: Women in a Welsh Mining Valley a'r nofel, Happy as a Dead Cat.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 29ain Mawrth, 1988.

## MOSEIC Y CENHEDLOEDD

15-19 Medi - Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Mae'r Academi Gymreig erioed wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd llenyddiaeth Gymraeg mewn cyd-destun byd-eang ac ym 1986 dyfarnwyd Gwobr Ossian i'r Academi am ei chyfraniad i ieithoedd lleiafrifol Ewrop. Yn dilyn hyn, mae'r Academi wedi trefnu cynhadledd ryngwladol er mwyn i lenorion sy'n llenyddia mewn ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd byd gael y cyfle i gyfarfod, trafod eu gwaith a chyfnewid syniadau. Bydd llenorion o bob rhan o'r byd - Catalonia, Galicia, Friesland, Denmarc, Gwlad yr Iâ, Tsiecoslofacia, Groeg, Serbia a Sri Lanka - yn dod i'r gynhadledd a chredir y bydd o fudd difesur i awduron a llengarwyr Cymru osod eu hunain yn y cyd-destun rhyngwladol amrywiola gwerthfawr hwn.

Bydd y gynhadledd yn cychwyn yn swyddogol nos Fawrth, 15 Medi am 7.30 p.m. gyda darlith agoriadol gan Jan Morris a'r Athro Raymond Williams yn rhoi golwg arbennig o Gymru a'i phobl. Am weddill yr wythnos y cynadleddwyr eu hunain fydd yn cymryd rhan - yn darllen eu gwaith yn y gwreiddiol ac mewn cyfieithiad ac yn rhannu eu profiad o gyhoeddi mewn iaith 'Leiafrifol' boed hynny'n Gatalaneg neu'n Roeg! Byddwn yn paratoi rhaglen o waith pob cynadleddwr gan gynnwys manylion bywgraffyddol a bydd hon ar gael i bawb sy'n dod i'r gynhadledd. Byddwn hefyd yn trefnu sesiynau o adloniant ysgafn ynghyd â chyflwyniad o lenyddiaeth Gymraeg ar gyfer y nosweithiau.

Mae pob sesiwn ar agor i'r cyhoedd ac fe'u cynhelir hwy oll yn yr Hen Goleg. Gobeithir denu cynulleidfia deilwng i'r sesiynau amrywiol hyn a bydd croeso i unrhyw un ddod i'r gynhadledd gyfan neu i ambell i sesiwn yn unig.

Os ydych am raglen derfynol y gynhadledd, a wnewch chi gysylltu a Sian Ithel yn swyddfa'r Academi Gymreig, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd. Ffôn: Caerdydd 492064.


MAE'R  
SAMARIAID  
YN GWRANDO,  
YN ABBEY ROAD



BANGOR  
354646

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR



DEWIS EANG O  
WELAU SENGL A DWBL  
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'  
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'  
GWAITH CONTRACT  
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI  
MEWN STOC - ALLWCH CHI  
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:  
WAUNFAWR 291

AR AGOR  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
AR GAU  
SUL,  
MERCHER.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU  
OFALUS

- \* Gwasanaeth 7 diwrnod
- \* O ddrws i ddrws
- \* Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon  
LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran  
Drafnidiaeth



# BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

**YSGOL FEITHRIN: Y TRIP:** Bu plant yr ysgol feithrin, ynghyd â'u hathrawon a'u rhieni, am eu trip blynyddol eleni i Fferm Gwnignod Dwyfor yn Llanystumdwy.

Cafodd y plant fwynhad mawr wrth gael dal y cwningod a bwydo'r wŷn bach a'r geifr. Cafodd pob un gyfle hefyd i fynd am dro ar y ceffyl a throl. Yna aethant i lawr i Gricieth i gael picnic ar lan y môr ac i ymdrochi yn y dŵr.

Ffarwelio ac Anti Rita: Rhoddwyd anrheg ffarwel a blodau i Mrs Rita Williams yng nghinio blynyddol rhieni ac athrawon yr ysgol feithrin,

fel arwydd o werthfawrogiad o'r gwaith a wnaeth dros y pum mlynedd diwethaf fel athrawes yn yr ysgol feithrin. Dymuna'r holl rieni ddiolch iddi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn ail ddechrau dydd Iau y 3ydd o Fedi. Cynhelir dau sesiwn yr wythnos i'r plant ieuengaf sef ar fore Llun a bore Iau o 9 o'r gloch hyd at 11 o'r gloch. Fe gynhelir pedwar sesiwn yr wythnos i'r plant hynaf sef ar bawn Llun a pwn Iau o 1 o'r gloch hyd at 3, ac ar fore Mawrth a Gwener o 9 o'r gloch hyd at 11 o'r gloch.



Mrs Mair Read, Cadeirydd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin, yn cyflwyno'r anrheg i Mrs Williams.



Mrs Williams gyda'i dosbarth.



Mae'r llun yn dangos rhai plant o'r ysgol feithrin yn cael cyfle ar y ceffyl a throl.

**DIOLCH:** Dymuna Mrs Rita Williams ddiolch yn fawr iawn i Swyddogion a Rhieni plant yr Ysgol Feithrin am y caredigrwydd a dderbyniodd pan yn gorffen yn yr Ysgol Feithrin. Diolch arbennig i Margaret a Luned a'r holl blant yn y 'Caban' newydd.

**LLONGYFARCHIADAU:** i Gareth Owen, 18 Cremllyn ar ddathlu ei

benblwydd yn 18 oed ar Awst 5ed. Llongyfarchiadau hefyd i Alwyn Williams, 29 Y Ddôl ar ddathlu ei benblwydd yn 18 ar Awst 24ain. Llongyfarchiadau hefyd i Alys Jones, Llys Alaw, 18 Stâd Eryri ar ei buddugoliaeth yng nghystadlaeth ysgrifennu nofel garu ar gyfer rhai yn eu harddegau yn Eisteddfod Bro Madog. Edrychwn ymlaen at weld y nofel yn cael ei chyhoeddi.

YR URDD - EISTEDDFOD

**GENEDLAETHOL 1990:** Nos Wener, Medi 11, am 7.30 o'r gloch yn Y Neuadd cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus i sefydlu pwyllgor lleol i fod yn gyfrifol am gasglu arian tuag at Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn nantlle ac Arfon 1990. Er bod bron i dair blynedd cyn yr Eisteddfod bydd dipyn o waith casglu a gobeithio yn wir y daw criw da i'r Neuadd i roi cychwyn da i'r gwaith.

**YR URDD CANGEN BETHEL:** Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn ddiwerddar i gloi gweithgareddau 1986-87 ac i edrych ymlaen i'r tymor newydd. Cafwyd adroddiad ariannol ynglŷn â mynd a'r cystadleuwyr i lawr i Ferthyr. Fe gostiodd £326 i fynd a'r ddau gor i'r Eisteddfod tra derbyniwyd £342 o'r ddwy daith gerdded a'r noson gremlog. Diolchwyd i bawb am eu parodrwydd yn cefnogi'r gangen yn eu hymdrech.

Darlennwyd llythyr oddi wrth Mr Dafydd Williams, Yr Hafod yn

ymddiswyddo o'i swydd fel Trysorydd y gangen ar ôl dros 10 mlynedd yn y swydd. Diolchwyd o galon i Dafydd am ei wasanaeth diflino a diffwdan i'r gangen am yr holl flynyddoedd.

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Nos Wener Medi 18ed, am 7.30 gyda golwg ar gael mwy i ymuno â Phwyllgor y Gangen. Gobeithir yn wir y ceir nifer dda o rieni a charedigion Yr Urdd yn bresennol.

**DYMUNIADAU DA:** Mae'r adegyma bob blwyddyn yn amser o newid mawr i nifer o blant yr ardal. Rhai yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin am y tro cyntaf, eraill yn cychwyn yn yr Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd a Choleg ac eraill yn dechrau mewn gwaith. Dymunwn yn dda i bawb sydd yn dechrau gyrfa newydd ym mis medi.

**LLONGYFARCHIADAU:** i Wena Lloyd Williams, Stâd Eryri ar ennill Gradd 3 gydamerit yn yr arholiad piano. Mae Wena yn ddisgybl i Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin.

## Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Ardal yr Eco

Mae Cangen Cylch Caernarfon o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr wedi trefnu Ysgol Undydd ym Mhlas Menai, Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 19. Y tâl am y diwrnod fydd £7 yn cynnwys cinio a danteithion y bore a'r prynhawn. Bydd yr ysgol yn dechrau am 10.30 pan yceir darlith gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd ar "Byd y Dyn Papur Newydd" ac yn y prynhawn testun Mr Owain Owain, Caernarfon fydd "Awen y Gwyddonydd".

Gan mai dosbarthiadau o dalgylch yr Eco ydyw y rhan fwyaf o ddosbarthiadau y gangen erfynnir yn daer am gefnogaeth aelodau y gwahanol ddosbarthiadau yn yr ysgol hon. Dylai y rhai sydd yn bwriadu mynychu'r ysgol gysylltu â Mrs Gwyneth Chick, Rhos y Ffin, Cwmyglo mor fuan ag y bo modd. Erfynnir hefyd am i gynrychiolwyr y gwahanol ddosbarthiadau W.E.A. yn y cylch bresennoli eu hunain yng nghyfarfodydd pwyllgorau y gangen o dro i dro.

### DINORWIG

**Hen Eiriau sydd yn Aros**  
Mr Ifor Baines, B.A.  
(Trin a thrafod cerddi)  
Dydd Iau, 7.00 p.m. yn y Ganolfan.  
5 Cyfarfod o Fedi 17.

### LLANBERIS

**Byd Natur**  
Mrs Mary Vaughan Jones, B.Sc.  
Cwrs yn cynnwys sleidiau a sgwrs ar gyfer trigolion Plas Pengwaith

Dydd Mawrth, 2.00 p.m. yn y Cartref  
5 Cyfarfod o Awst 11

### Golwg ar Hanes Dyffryn Peris

Mr D. Whiteside Thomas, B.A.  
Dydd Llun, 7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn  
5 cyfarfod o Ionawr 11.

### Arlunio: Paentio ag Olew

Mrs Barbara Owen, A.T.D.  
Dydd Llun 7.00 p.m. Ysgol Dolbadarn  
20 cyfarfod o Fedi 6.

### Byd Natur: Yr Anifail yn ei Gynefin

Mr Duncan Brown  
Dydd Llun, 7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn  
5 cyfarfod o Fedi 28

### WAUNFAWR

**Olrhain Achau**  
Mr Iwan Roberts  
Dydd Mawrth, 7.00 p.m. yn yr Ysgol Gynradd  
5 cyfarfod o Hydref 6

### LLANRUG

**Llên Gwerin a Byd Natur**  
Mr T. Elias B.Sc.  
Dydd Llun, 7.00 p.m. yn yr Ysgol Gynradd  
10 cyfarfod o Ionawr 11.

### Arlunio: Paentio ag Olew

Mrs Barbara Owen, A.T.D.  
Dydd Iau, 7.00 p.m. yn Ysgol Brynrefail  
20 cyfarfod o Fedi

## BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol  
Glanmoelyn

**LLANRUG**  
Ffôn 77482 (dydd)  
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,  
Drysau, Grisau neu  
unrhyw fath o gynnyrch  
coed. Y coed meddal wedi  
derbyn triniaeth arbennig i  
wneud iddynt bara.

## CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

## STIMVAK

gyda'r offer mwyaf  
modern, diweddaraf, sydd  
ar gael. Am fanylion  
cysylltwch â

## TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR 291  
Hefyd ail-osod carpedi



# DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

**CYFLWR FFYRDD:** Yn diweddar bu'r Cyng. Glyn Tomos yn cyfarfod â un o swyddogion Adran Ffyrrdd y Cyngor Sir i drafod cyflwr ffyrdd y pentref. Cafwyd addewid y bydd gwaith atgyweirio yn cael ei wneud arnynt yn y dyfodol agos. Tynnwyd sylw yn arbennig at gyflwr truenus y ffordd o Bro Elidir i Gapel Dinorwig.

**PLEIDLEISIO:** Derbyniodd Cyng. Glyn Tomos ateb i'w lythyr gan Mr D.L. Jones, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeisdref Arfon ynglŷn â sefydlu hawl pawb yn y pentref i bleidleisio yn lleol. Yn ei lythyr dywedodd Mr Jones bod ganddo gydymdeimlad â phobl Dinorwig yn y sefyllfa yma ac addawodd y buasai yn gwneud popeth o fewn ei allu i adfer yr hawl sylfaenol yma. Mawr obeithiwn y cawn wybod am ganlyniadau ymdrechion Mr Jones yn y dyfodol agos.

**APÊL LLEOL - EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990:** Fel y rhagwelwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco bu i chwi fel pentrefwyr ymateb yn arbennig o hael i gais y plant am noddwyr i daith gerdded a drefnwyd ar ddydd Sadwrn Awst 1af. Casglwyd £50. Cafwyd diwrnod sych er yn oer, ond serch hynny cafodd y plant dipyn o hwyl wrth gerdded i Nant Peris ac yn ôl i Ddinorwig drwy Lanberis. Mae dyled y pwyllgor yn fawr i'r plant sef Dafydd, Arwyn, Iwan, Aaron, Steven a Daniel heb anghofio Mr Alwyn Jones a Glyn Tomos a fu yn cadw cwmpeini iddynt ac i chwi fel pentrefwyr am noddi'r daith. Mae'r pwyllgor yn awyddus i drefnu dipyn o weithgareddau yn ystod misoedd y

gaeaf - gan gynnwys Steddfod pur arbennig. Cewch fwy o fanylion am hyn ac am y gweithgareddau yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

**EGLWYS ST. MAIR:** Mae'n debyg mai'r adeilad sydd wedi tynnu sylw mwyaf ato'i hun eleni yn y pentref yw Eglwys St. Mair neu Eglwys Fach fel y gelwir hi gan yr aelodau. Y rheswm am hyn yw bod yr adeilad wedi cael ei weddnewid yn llwyr - yn bennaf o'r tu allan gan yr holl waith atgyweirio sydd wedi bod arni dros y flwyddyn ddiwethaf. Bellach mae'r gwaith wedi ei gwblhau ac mae'r Eglwys yn sefyll fel brenhines ar fryn ac mae'n werth ei gweld. Gwnaed yr holl waith atgyweirio gan dîm o weithwyr o dan y cynllun M.S.C. ac mae dyled yr Eglwys yn fawr i Mr Bob Jones, Pentraeth y goruchwyliwr ac i'w dîm am y gwaith caled a chydwybodol y maent wedi ei wneud. Hefyd yr un mor ddiffuant yw dyled yr Eglwys i'r Warden - Mrs J Williams am y modd y mae hi wedi llwyddo i lywio yr holl drefniadau ymlaen a sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn effeithiol. Yn naturiol mae'r holl waith yn costio yn ddrud yn ariannol i ffyddloniaid St. Mair ac os oes rhai o ddarlennwyr yr Eco yn dymuno cynnig rhodd ariannol tuag at y gôst yna byddai'r Eglwys yn ddiolchgar am bob cyfraniad boed fach neu fawr. Gellir anfon cyfraniadau i'r Warden - Mrs J. Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig.

**LLWYBR MAES EILIAN-CHWAREL GOCH:** I chwi sydd yn gerddwyr brwd yna mae'n siwr eich bod wedi gweld bod y gwaith atgyweirio ar y llwybr yma wedi ei gwblhau erbyn hyn ac mae'r diolch am hynny yn

ddyledus i Mr B Williams, Brookfield am wneud y gwaith mor dda a safonol. Gobeithio yn awr y caiff y llwybr ei barchu o hyn ymlaen.

**CYSGODFAN:** Ar ôl cael llonydd mor dda mae rhywun neu rhywrai wedi bod yn difrodi peth o wyneb waliau tu mewn y gysgodfan gyda phaent du. Ofer yw pob ymdrech wedi bod hyd yma i'w lanhau. Os gwyddoch am ffordd i gael y paent i ffwrdd yna buasai'r Cyngorhorydd Glyn Tomos yn falch o gael gwybod gennych.

**GWELLHAD:** Ar ddechrau ei gwyliu ysgol fe gyfarfu Kelly, merch fach Mrs Rosemary Jones, 10 Maes Eilian â damwain gas, ac fe anafodd fawd ei throed. Fe ofnid ar un adeg y byddai rhaid torri'r bawd i ffwrdd, ond o drugaredd fe osgowyd hyn. Fe fuasai hyn wedi amharu ar gydbwysedd ei throed. Erbyn hyn mae hi'n gwella'n foddhâol ac yn cerdded o gwmpas fel pe bai dim wedi digwydd. Er hynny 'roeddem oll yn bryderus yn ei chylch gan ei bod bob amser mor siriol ac yn llawn bywyd.

**LLONGYFARCHIADAU:** I Alison, merch Mr a Mrs Abram Jones, Foel Gron ar ennill ei diploma S.R.N. ac mae bellach yn weinyddes gydnabyddedig gan y wladwriaeth.

**PRIODAS:** Yng Nghapel y Methodistiaid yn Menllech, Ynys Môn ar y 24ain o Orffennaf priodwyd Rhian, merch hynaf Mr a Mrs Trefor Williams o'r Benllech â Meirion - mab ieuengaf Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig. Fe wasanaethwyd gan y Parch Emlyn Richards, Cemaes a'r Parch Idris Thomas, Trefor - brawd y priodfab. Yn y neithior yng ngwesty Bryn Tiron, Traeth Coch fe gyfarwyd Rhian a Meirion gan amryw o gyfeillion dyma englyn leuan Wyn - Prifardd Cadair Eisteddfod Bro Madog ar yr achlysur - Mae awr Rhian a Meirion - yn cychwyn

Fel cwch dros yr afon,  
Drwy serch bydd y ferch o Fôn  
Yn anrnod yn Arfon.

Fe fydd y pâr ifanc yn ymgartrefu ym Mhenrhosgarnedd - lle y mae Meirion yn glerc gyda Awdurdod Dŵr Cymru, athrawes Ddrama yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn yw Rhian. Pob dymuniad da i'r ddau.

**DIOLCH:** Dymuna Meirion a Rhian ddiolch yn fawr iawn i'r llu cyfeillion o Ddinorwig ac Ynys Môn am eu rhoddion caredig iddynt.

Dymunir i ni ddiolch ar ran gweddwr diweddar Mr Tom Roberts, Bontnewydd am bob cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddi oddi wrth nifer o gyfeillion o Ddinorwig a Fachwen. Mae ei frawd Mr Elfed Roberts yntau'n ymuno'n y diolch a'r arwyddion cydymdeimlad. Trist yw colli rhai fel Tom Penbryn ac Emrys Tanfron.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL:** Yr ydym yn ymwybodol bod Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog yn perthyn i'r gorffnol. Ar lawer cyfrif fe fu hon yn Eisteddfod hynod lwyddiannus, a phleser o'r mwyaf i ni yn Ninorwig yw cael llongyfarch Band Deiniolen ar gyrraedly brig yng nghystadleuaeth dosbarthiadau B ac C, ac ni fynnem i'r cyfleynd heibio i longyfarch Band Llanrug hwythau'n cyrraedd safon uchel yn nosbarth A y bandiau prës. Fe dystiwyd bod safon y cystadlu yn y brifwyl yn gyffredinol uchel a'r awyrgylch Gymreig yn donic i'r ymwelwyr o dde Cymru yn gystal â'r rhai o rannau pellenigyddaeir.

**CYNGOR:** Teg yw nodi bod y cynghorau wedi gweld yn dda i beintio'r tai lle 'rydym yn byw, ond gresyn bod tywydd anffafriol yn arafu'r gwaith. A thra'n sôn am y peintio 'rwy'n credu y dylid annog y Cyngor i dorri'r gwelltglas sydd rhwng y tai a'r ffordd lle ceir y traffig.

Prin bod yr enw Dinorwig yn weladwy i'r rhai sy'n teithio heibio. O ganlyniad i'r tyfiant sydd o'i amgylch, ac mae 'railings, yn y fan hon sydd angen eu peintio, ond y gwelltglas a'r cwlwm coed yn gwneudy gwaith yn anodd i unrhyw beintar.

Fe ddangosodd yr Etholiad Cyffredinol diweddar bod cryn anesmwythyd ynglŷn â'r drefn o gyflysu rhanau o Ddinorwig â Chylch Deiniolen i bwrpas pleidleisio. Pa synnwyr oedd disgwyl i rai fyned heibio gorsaf bleidleisio Dinorwig yn yrhen ysgol a adwaenir bellach fel y Ganolfan a myned i Ysgol Deiniolen i bleidleisio? Ffolineb o'r mwyaf oedd hyn, ac yn groes i'r gaen. Mae'r Aelod Seneddol Mr Dafydd Wigley yn edrych i mewn i'r gwyn, a dwyn y mater i sylw'r awdurdodau priodol. Mae'r un peth wedi digwydd mewn ardaloedd eraill hefyd wrth gwrs, ac fe gafwyd cyfarfyddiad â Mrs Pat Larsen i wyntyllu'r mater, ac roedd hithau'n gefnogol iawn ni sy'n awyddus i gadw Dinorwig yn uned ar wahân fel yn y gorffennol. Baich na ddylid ei roi ar ein hysgwyddau dyw hwn.

**GWASANAETHAU:** Eleni fe ddilynnon ni arferiad Deiniolen o gynnal gwasanaethau ar y cyd ac uno cynulleidfaoedd y capeli. Ar rai Suliau yn ystod mis Awst fe ddaeth cynulleidfadau Dinorwig (M.C.) i Sardis tra'r aeth Sardis fel cynulleidfadau i gyfaddoli yng Nghapel Dinorwig - er wrth gwrs fe gynhelid yr oedfaonyno yn y festri. Rhaid cydnabod ei bod hi'n gyfnod pan yw'n anodd cael rhai i wasanaethuyn y pulpud, ac mae'r cynllun yma, yn ffordd o rannu'r baich rhwng y ddau gapel. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gweithredu cynllun tebyg gan fod Eglwys Llanddinorwig yn cynnal eu gwasanaethau yn Eglwys St. Mair a'r atgyweirio yn Llanddinorwig wrth gwrs yn symbyliad i hyn.

**LLONGYFARCHIADAU:** Ar Orffennaf 15ed fe ddathlodd Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan Bwlch eu priodas ruddem, ac fe estynnwn ein llongyfarchiadau yn ogystal i Rita Wyn Morris, Tŷ Capel Dinorwig (MC) a ddathlodd ei phenblwydd yn 21ain ar Orffennaf 24ain.

**CYDYMDEIMLO:** Fe ddylwn gyfeirio at farwolaeth Mr Tom Roberts, 2 Rhes Beuno, Bontnewydd, oedd yn adnabyddus i ni fel Tom Penbryn, Fachwen. Fe fu'n dod o amgylch y tai - fel y diweddar loan Roberts o'i flaen - yn gwerthu cig, ac fe fu am gyfnod yn cadw siop yn Tan Post, Deiniolen. Fe fu ei wraig yn cadw siop yn ogystal yn Fachwen a'r siop honno yn llythyrdy i'r ychydig dai oedd o'i hamgylch. Chwith iawn yw cofnodi marwolaeth cymeriad lliwgar fel ef a gydoesai ag Emrys, Tanfron y cyfeiriwyd at ei farwolaeth ychydig wythnosau'n ôl. Cyfai'll i'r diweddar Tom aluniodd y pennillion a ganlyn:

Tom Robert, Beuno Terrace  
'Rol dioddefcystudd maith,  
Ddiodeffodd yn ddirwgnach  
Nes y daethi ben ei daith.

Ni allodd cymorth dynol  
Er cymaint gafodd ef  
Osgoi yr alwad Ddwyfol  
I'w gartref yny Nef.

Bu'n flaenor yn Seloam  
A ffyddlon iawn yn wir  
Hyd nes cael ei gaethiwo  
Gan ei anhwyldeb hir.

Ond heddiw nid oes boenau  
Na phryder ganddo'n bod  
Yng nghwmni Duw a lesu Grist  
Yn uno yn eu clod.

Er inni gollliei gwmni  
Er inni deimlo siom  
Daw nerth wrth inni gofio  
Am gartrefnewydd Tom.

W. Griffiths



Beth well ar daith gerdded na llond ceg o hufen-iâ.

**W.J. GRIFFITH**

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr  
Nwy  
Cofrestedig  
Corgi



Aelod o'r  
Association of  
Plumbing and  
Mechanical  
Contractors

Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr

**W.H. JONES**

TRYDANWR

Green Bank  
Stryd Fawr  
LLANBERIS

FFÔN:  
LLANBERIS 871470

Contractau  
Weirio Tai

Cawodydd Trydan  
ac ati



# PENISARWAUN


Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



Ffarwelio â'r pennaeth. Mrs Ann Evans a Mrs Ann Thomas gyda Mr Mowll.

**YSGOL TAN-Y-COED:** Dydd Iau, Gorffennaf 9ed aeth llond dau fws o blant, rhieni a staff am drip i Sŵ Bae Colwyn. Cafwyd diwrnod braf a chofiadwy dros ben. P'nawn mawrth, Gorff. 14 cafwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio â genethod safon 4 ac i ddymuno'r gorau iddynt ar eu gyrfa newydd yn ysgol Brynrefail. Diolchwyr i Mr Gwyn Mowll, gan Mr Len Jones, am 'Lwyio'r llong yn ddiogel' am ddwy flynedd a hanner ac am ofalu mor dyner am ei 'griw' a'i 'deithwyr'. Llongyfarchwyd ef ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Nantlle a dymunwyd yn dda iddo gan Mr Glyn Evans ar ran y llywodraethwyr (llun). Pob dymuniad da i chwi Mr Mowll oddi wrth y staff, y plant a'r rhieni i gyd a chroeso'n ôli Mr Len Jones. Croeso hefyd i Mrs Beryl Jones, Anti Lolipop newydd y plant.

**ADRAN BENTREF YR URDD:** Balch oeddem o glywed am lwyddiant Arwel Jones a Jonathan Richards ym Mabolgampau'r Sir ar gaeau'r Coleg Normal. Daeth Arwel yn gyntaf am daflu pêl i rai dan 10 oed a Jonathan yn ail am naid hir dan 10 oed. Da iawn chi hogia (llun).



**CARNIFAL:** Gorffennaf 4 - 11. Daeth tyrfa deilwng i'r Gymanfa Ganu nos Sul yn Eglwys Santes Helen. Cafwyd eitemau gan blant yr ysgol a Pharti Lleisiau'r Gweunydd. Arweinydd y gân oedd Einir Wyn Williams, Rhiwlas a thraddodwyd y fendith gan y Parch Tegid Roberts.

Nos Lun, am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys cafwyd Bingo yng ngofal Gwilym Jones.

Noson i blant yr ysgol gynradd a safon 1 a 2 Ysgol Brynrefail oedd hi ddydd Mawrth, yng ngofal David Philips a Myfanwy Parry. Tim Bedwyr oedd yn fuddugol gyda'r pêl droed a thîm Eurgain gyda'r rownderi.

Nos Wener mwynhawyd Gemau Giamocs gyda Selwyn Jones, fel canolwr.

**LLONGYFARCHIADAU:** Dydd Sadwrn Awst 1af, bu priodas Anwen ac Aled yng Nghapel Ebenezzer, Caernarfon. Pobdymuniad da i chwi a gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd yng Ngharmel. Llongyfarchiadau i Hughie Jones, Heather Bank, ar gyrraedd ei 21ain.



**CARNIFAL:** Ddydd Sadwrn am 2 p.m. cychwynodd y Carnifal o Siop Gryn a chafwyd cystadlaethau o safon uchel iawn yn ôl y beirniaid Mr Deiniol Huws, Caeathro a Mrs Rowena Williams, Caernarfon. Yn syth ar ôl y Carnifal cafwyd mabolgampau i orffen diwrnod llwyddiannus iawn. Diolchir i bawb a gyfranodd ac a gefnogodd weithgareddau'r wythnos.

Dyma'r canlyniadau: Addurno het - Erin, Jonathan, Eleri. Cymeriad gyda cheffyl - Eurgain a Lola. Unrhyw bâr dan 12 oed - Rachel a Lenny, Paul ac Osian, Elgan a Siân. Unrhyw bâr dros 12 oed. Knitwits a Shirley a Glenys. Dan 5 oed - Urien Deiniol, Erin, Eurig a Cenin. 5-8 oed, Huw, Ynyr, Angela. 8-11 oed, William, Eleri, Llion a Nia. 11-15 oed, Morrigan, Hefina, Owen, Sioned Lewis, Andrea a Joanna. Unrhyw wisg - Madog a'i griw, Hwiangerddi, Tywydd anwadl a Carafan. Enillydd y Carnifal - Urien Deiniol. (lluniau).

**CAPEL BOSRA:** Bu'r haul yn tywynnu eleni ar diwrnod trip y plant i Rhyll. Fe fwyhaodd pawb yr heulwen ar y traeth a'r gwario yn y ffair. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am wneud y trefniadau ac i haelioni Mr Hoskinsons i'r plant. Bydd Ysgol Sul yn ail-ddechrau, fore Sul, Medi 6ed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**LLONGYFARCHIADAU** i Hefina Jones, Tai Arthur am wneud mor dda

yn ei arholiad theori gradd 3.

Deallwn fod Aled a Dylan Green wedi cipio amryw o wobrau gyda'i hieir mewn gwahanol sioeau. I chwi blant oedd yn sefyll arholiadau'r Cyd-bwyllgor Addysg eleni. Llongyfarchiadau calonog i chwi oll a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**DIOLCH:** Dymuna Hughie Jones, ddiolch i'w rieni, teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei benblwydd yn 21ain. Yr un modd, dymuna Anwen ac Aled ddiolch i bawb am y dymuniad da a'r llu anrhegion ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**CROESO:** Cadw Tŷ Capel Cymraeg ym Melbourne, Awstralia mae Helen a Cecil Ireland. Y mae Mrs Helen Ireland yn chwaer i Mrs Mary Davies, 12 Llys y Gwynt a dyma'reildro iddi ddod drosodd i'w hen gynefin. Gobeithio iddi hi a'i gŵr gael amser da er gwaetha'r tywydd gwlyb.

**CLWB CANT:** Dymuna'r Pwyllgorddiolch yn ddiffuant iawn i Arwel a Carys Jones am agor giatiau eu gerddi i'r pentrefwyr noson y Barbeciw. Bu'n noson lwyddiannus dros ben a phawb wedi mwynhau eu

hunain ac yn dymuno noson gyffelyb yn fuan eto. Gwnaed elw sylweddol o £260. Diolchir i bawb fu'n barod i helpu i wneud y noson yn llwyddiant. Enillwyd Clwb Cant yn Gorffennaf a dynnwyd yn Neuadd yr Eglwys oedd Eurgain Haf, Myra Griffiths a Tony Eliot. Tynnir Clwb Cant mis Awst yn y noson gymdeithasol yng Ngwesty Fictoria, nos Sadwrn, Awst 29ain ynghyd â'r raffl fawr. Gobeithir cael cwis mis Medi gyda phaned o de a thatws trwy'u crwyn.

**CYFARFOD CYHOEDDUS**  
Cynhelir Cyfarfod  
Cyhoeddus Nos Iau, Medi  
17, am 7 p.m. yn Ysgol  
Tan-y-Coed i sefydlu  
pwyllgor ar gyfer targed  
ariannol y pentref tuag at  
Eisteddfod Genedlaethol  
yr Urdd Dyfryn Nantlle ac  
Arfon 1990. Taer erfynnir  
am bob cefnogaeth.

## MADOG A'I GRIW



**EGLWYS SANTES HELEN:** Rydym yn falch o glywed fod Canon R.D. Roberts yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Diolch i Mrs Ann Paterson am drefnu trip ysgol Sul y plant.

**GWELLA:** Er bod yr haf hwn yn ddigon i godi'r felan ar unrhyw un, gobeithiwn fod pawb sydd wedi bod yn sâl yn gwella erbyn hyn - efallai y cawn Ha' Bach Mihangel eto i godi'r galon. Da gennym ddeall fod Mrs P Williams yn gwella wedi iddi ddisgyn.

**CYDYMDEIMLO:** Ein cydymdeimlad llwyrâf â theulu Commercial House wedi marwolaeth Mrs Griffiths, â Mr Hoskinsons, Pant Afon wedi marwolaeth ei briod ac hefyd â theulu 14 Bryn Tirion sef Carol, Doris a Margaret wedi colli mam dyner ac annwyl sef Mrs Margaret Adlam. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll.

Mae **OXFAM** angen eich help i drefnu:  
**ras hwyl**  
**cerdded nodedig**  
**bore coffi**  
**ffair sborion**

neu unrhyw ddull arall i godi arian tuag at gynlluniau yn y Trydydd Byd

Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â **Frank Evans**  
**Caerdydd 757067 estyniad 22**

Am waith  
**PEINTIO, ADDURNO**  
a mân atgyweirio oddi mewn  
neu tu allan am bris rhesymol  
cysyllter ag

**ERIC JONES**

**17 BRYN TIRION**

**PENISARWAUN**

**Ffôn: LLANBERIS 872421**



# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

**DIOLCH:** Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Ellen Foulkes Williams, gynt o Glanffwrdd, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i lu o bentrefwyr Brynrefail am eu mynych ymweliadau pan oedd yn yr ysbyty ac am eu cardiau.

**DATHLU PENBLWYDD:** Llongyfarchiadau i Mr William Evans, Ffrwd Madog ar ddathlu ei benblwydd yn 95 oed ar Awst 21ain. Mae Mr Evans mewn iechyd hynod o dda, yn fywiog a diddorol ei sgwrs ac yn cael pob gofal gan ei ferch Mrs Eirianwen Evans a'r teulu oll. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Ellen Hughes (gynt o Bronafon) sydd yng nghartref Berwyn Lodge yng Ngharrog ers tua phedair blynedd. Nid yw Mrs Hughes wedi bod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau iddi hithau ar ddathlu ohoni ei phenblwydd yn 95 mlwydd oed ar Awst 30ain.

**SEFYDLIAD Y MERCHED:** Nos Lun, Mehefin 29ain, cafwyd trip dirgel llwyddiannus iawn wedi ei drefnu gan lywydd y gangen Mrs Pat Jones. Teithwyd o Frynrefail gan ddilyn ffordd yr arfordir tua Chonwy, yna hyd ddyffryn Conwy i gyffiniau Llanrwst pryd yr ymwelwyd a

ffermdy hynafol Cyffdy Hall, lle roedd casgliad anhygoel ac enfawr o hen greiriau yn cael eu harddangos. 'Roedd y cyfan yn rhyfeddod ac yn brofiad unigryw i'r oll o'r aelodau. Yn dilyn mwynhawyd lluniaeth gampus yn Nhrefriw. Nodon i'w chofio yn wir. Nos Lun, Goffennaf 27ain, cafwyd cyfarfod o'r gangen dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Pleser oedd cael croesawu Cangen Sefydliad y Merched Chwilog i'n plith. Trefnwyd cwis gan Mrs Eirlys Williams yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Euronwy Roberts. Cafwyd noson hynod o bleserus o ateb brwd gyda'r gangen leol yn fuddugol. Gwnaed elw sylweddol at gronfa'r gangen o'r bwrdd cacennau o gynnyrch cartref aelodau Brynrefail. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi'r 21ain.

**PRIODAS:** Ddydd Sadwrn, Awst 8fed, priodwyd Einir Evans, merch Hugh a Dilys Evans, Min-y-don ag Alan Owen, mab Maldwyn ac Iris Owen, Dolifan Bach, Carmel. Y morynion oedd Carolyn a Donna, Bryn Tirion Bryngwran a'r gwas oedd Dylan Wyn Owen, brawd y priodfab. Cafwyd y brecwast priodas yn Llety, Caeathro. Byddent yn ymgartrefu yn Portsmouth. Dymuna Alan ac Einir ddiolch i'w holl deulu a'u ffrindiau am yr anrhegion ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.



## DERWYN HUGHES

Treflys  
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis  
870945

Am  
nenfydau  
a waliau  
siapus

*Amex*

WELDIO OFFER FFERM  
A PHEIRIANNAU  
DIWYDIANNOL  
GWNEUD GIATIAU,  
FFENSYS AC ATI  
AR GYFER Y CARTREF  
ATGYWEIRIO TAI  
GWAIR

**E. PUGH**

WELDING &  
FABRICATING  
32 GLANFFYNNON  
**LLANRUG**  
Ffôn: Caernarfon 5394

**NEWYDD  
AGOR!  
SIOP  
BAENT**

**STORFA  
Tŷ NEWYDD**

BRWSHUS . TYRPS  
POLIFFILA . BWCEDI  
'HARDWARE' AC ATI

# CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

**LLONGYFARCHIADAU:** i Dylan, 15 Dôl Afon a Sandra, Tanrallt ar gyrraedd eu penblwydd yn 18 oed.

Llongyfarchiadau i Sharon a Graham Judge ar enedigaeth eu merch fach Donna Anne, i Mr a Mrs Richard Hughes, 10 Dôl Afon ar ddod yn daid a nain, i Mr a Mrs Robin Price, 1 Stryd Newydd ar ddod yn hen daid a nain, ac i Mrs Hannah Williams, 2 Maes Gerddi ar ddod yn hen, hen nain. Tybed pryd y cafwyd pum cenhedlaeth ddiwethaf yn y Cwm!

Llongyfarchiadau i blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau.

**MARWOLAETH:** Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Rhona Zutshi, 40 Villiers Crescent, Eccleston, merch y diweddar Mr a Mrs J E Hughes, Craig-y-Don. Dioddefodd gystudd hir a bli. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Dr. Rishi Zutshi, ei phlant Ajai, Ravi, Arun, Vijaya ac Usha, hefyd ei brodyr a'i chwiorydd a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

**CYDYMDEIMLAD:** Estynnwn ein cydymdeimlad â: Mr Iorwerth Jones, Min-y-Don o golli ewythr; Mr Bobbie Evans, 15 Dôl Afon o golli chwaer; Mr Hubert Roberts, Bod Gwynedd o golli chwaer; Mrs Jean Bellini, Eithin Duon o golli brawd a Mrs Avril Jones, Glan-y-Don o golli taid.

**GWELLHAD:** Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i amryw o drigolion y pentref sydd wedi bod yn wael yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**BINGO A CHWARAEON:** Oherwydd

prinder amser i drefnu y Carnifal arferol, penderfynodd y Pwyllgor gynnal Noson Bingo a Dydd Chwaraeon eleni. Bu y ddau achlysur yn llwyddiannus iawn a chasglwyd swm sylweddol tuag at gostaurhedeg y Ganolfan. Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth. Diolch yn fawr.

**CLWB POBOL Y CWM:** Yng nghyfarfod olaf y tymor croesawyd y Parch Gwynfor Williams, Llanberis a diolchwyd iddo gan y llywydd Mr Llew Hughes am ei sgwrs ddiddorol ar weithgareddau ac ymroddiad gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan y Sir. Mae Mr Williams yn ddirprwy Brif Swyddog gyda'r pencadlys yn Bodfan, Caernarfon. Ynghanol ei brysurdeb gyda'i amryw swyddogaethau a gofyniadau parhaus am ei wasanaeth mae bob amser yn barod ei gymwynas. Llongyfarchwyd Mr Richard Roberts, Bryn Gro ar gyrraedd ei 88 oed a gofalodd Mrs K Watkins a Miss E Hughes am de arbennig i ddathlu'r amgylchiad. Rhoddwyd y raffl gan Mrs E Jones, Seiont House. Gwnaed trefniadau gogyfer y wibdaith pryd disgwylir ymweld â Rhuthun ac yna ymlaen i Landudno.

I Mr Roberts:

Llongyfarchiadau Richard  
Ar gyrraedd wyth deg wyth,  
Yn ystod y blynyddoedd  
Torasoch lawer cŵys  
Yn Aber y Gwyn Gegin  
Cychwynoch ar eich taith  
Yn ymyl Traeth y Lafan  
A'i hanes hen a maith.

Bu cyfnod yn y fyddin  
A blwyddi'n crwydro'r lein  
Beth bynnag fu eich gorchwyl  
Fe'i gwanethoch gyda sgleini  
Yr Eglwys gadd gefnogaeth  
A'ch presenoldeb cyd,  
A chawsoch wyliau hefyd  
A chyfle i weld y byd.

Ac yn y ganrif nesaf  
Pan ewch tu draw i'r llen,  
Caiff eraill y telynu  
A choron ar eu pen,  
Ond beth fydd gwoibr Richard?  
Cewch chwi rhyw glwt o ardd  
Ac yno byddwch ddedwydd  
Yn cadw'r nef yn hardd.

G. Chick

**CYDYMDEIMLAD:** Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Richard Roberts, 1 Bryn Gro yn ei brofedigaeth o golli mab-yng-nghyfraith.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr Evan Owen, Talgwynedd ar ddod yn daid am yr eilwaith. Ganwyd mab bach i Susan ac Alan, Gavin brawd bach i Dawn.

*Joelas*

**CARTREF YR HENOED**  
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG  
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG  
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN  
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS  
**Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon**  
(0286) 4652




# CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon. Ffôn: 3536.

**LLWYDDIANT:** Hefyd yn ystod yr haf cynhaliwyd Eisteddfod Henoed Cyngor Sir Gwynedd ym Mhorthmadog. Un a fu'n llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod yma yw Mrs Mary Albert Jones, 14 Rhes Glangwna. Enillodd 3 gwobr gyntaf, 3 ail wobwr, a 2 trydydd wobwr gyda'i gwaith llaw graenus, a'r darian am y nifer mwyaf o bwyntiau yn yr adran honno. Ardderchog Anty Mary!



**Ffair Haf:** Yn ystod gwyliau'r haf penderfynodd dwy eneth fach o'r pentref sef Cerri Ann Roberts, 10 Erw Wen, ac Eirian Roberts, 'Sea View', gynnal Ffair Haf i godi arian tuag at apêl y Sganiwr. Daeth lluo o ffrindiau ynghyd i'w helpu, a buont mor llwyddiannus a chodi £186. Rhoddwyd £70 i gau cronfa pentref Caeathro tuag at y Sganiwr, a rhoddwyd y gweddill at Gronfa Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle a'r Cylch 1990. Da iawn chi genod.



**CROESO** yn ôl i'n plith i Mr a Mrs R Owen, sydd wedi ymgartrefu yn 1 Erw Wen.

**LLONGYFARCHIADAU** i Andrew Williams, 2 Hen Gapel, ar basio ei arholiadau S.E.N. yn ddiweddar.

i Iwan Roberts, Gerallt, ar ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Awst 10ed.

i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau lefel 'O' ac 'A'.

**DYMUNIADAU DA'R PENTREF** i'r rhai sy'n mynd ymlaen i wahanol golegau ym Mis Medi.

**CLWB GER-Y-TAN:** Penderfynwyd ar yr enw yma ar glwb merched y pentref. Bydd y clwb yn cyfarfod ar nos Fercher olaf pob mis yng nghartrefi'r aelodau, a phob yn ail mis ceir noson allan. Cynhelir cyfarfod cyntaf nos Fercher, Medi'r 30ain, pryd y ceir noson yn 'Llety'.

**CAPEL:** Ail agorir y Capel ar ôl gwyliau Awst gyda phregeth gan Llew Madog Jones am 2 y prynhawn, ddydd Sul Medi 6ed. Pregethir ar y Suliau canlynol fel a ganlyn am 2 y prynhawn: Medi 13, R. Gwilym Hughes; Medi 20, Harold Parry Jones; Medi 27, William Jones.

**PLAID CYMRU:** Teimlir gan rai o aelodau o'r Blaidd yng Nghaeathro fod yn well ganddynt ymuno â changen Waunfawr yn lle'r Bontnewydd fel y bu. Gofynnir i'r aelodau feddwl am y newid cyn talu eu tanysgrifiadau blynyddol fis Medi. Dechreuir cyfarfodydd y gaeaf gyda noson gymdeithasol i'r ddwy gangen yn 'Llety' gydag adloniant ysgafn a bwyd. Tocynnau ar gael gan Clive James, Hafan.

**NEWID ENWAU TAL:** Mae gan y Saeson ddywediad, 'When in Rome do as the Romans do'. Erbyn heddiw mae'n fwy a mwy amlwg bod ail ran iddo, h.y. 'except in Wales, when do as in England'. Ar ôl newid Frondeg i 'Cashlink House' gan y perchnogion newydd, mae enwau dau dŷ arall wedi mynd i'r un cyfeiriad. Erbyn heddiw gellir aros am 'Bed and Breakfast' yn 'The Old Smithy' neu ymweld â 'Wern Mill'. Ydi mae problem y mewnfudiad wedi cyrraedd Caeathro erbyn hyn.

**SIOE'R PENTREF:** Cynhaliwyd Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ y pentref yn y Ffestri ddydd Sadwrn Awst 22ain. O ystyried y tywydd yr haf eleni roedd y nifer o gystadleuwyr yn yr adrannau Llysiau a Blodau yn well na llynedd. Beth bynnag, siomedig oedd y nifer o eitemau yn yr adrannau coginio, gwau a phlant. Yn yr Adran Blodau enillwyd tarianau gan Mrs M Hemsworth, H. Atkinson a Mr H Jones, a Chwpan Plas Treflan gan Mr Deiniol Hughes. Enillwyd cwpan Cefn Gôf yn yr Adran Llysiau gan Ifor Hughes, a tharianau gan Mr M Hemsworth ac I. Hughes. Roedd safon y coginio yn uchel a rhoddwyd tarianau i Mrs Eirlys Pritchard, Alwen Hughes, Vera Roberts a M. Hemsworth, a chwpan Clwb Merched i Mrs Alwen Hughes. Mrs Margaret Jones oedd yr enillydd yn yr Adran Gwau. Rhoddwyd gwobrau yn Adran y Plant i Eifyn Robert, Ceri Roberts, Einir Jones a Manon Hughes. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb oedd wedi cystadlu a chefnogi'r Sioe eleni, a

gobeithiwn am fwy o ddiddordeb (a thywydd gwell) y flwyddyn nesaf.

**CLAPA:** Ychydig iawn o bobl sydd wedi clywed am y gymdeithas yma, sef Cleft Lip & Palate Association (Cymdeithas Gwefus a Thafod Holtt). Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gymdeithas, penderfynodd Tony Griffiths, 'Annedd' sydd â mab yn dioddef o'r anhwylder, wneud marathon dartiau 24 awr. Einôd oedd ceisio torri'r record Gymreig o sgôr o 614,032. Cynhaliwyd y 'marathon' ym Mryn Gwna. Daeth Bobby Haines o Gaernarfon i daflu'r 3 dart cyntaf, ac yna cymerwyd drosodd gan Dewi, Buddy, Lennie, Eroslyn, John, Dewi, Anthony, Alan a Tony ei hun. Yn cadw sgôr trwy gydol yr ornest, o 11 y bore Sadwrn tan 11 fore Sul, roedd Eirian, Pat, Claire, Beno, Tom, Myrddin, Alun, Mois, Roy, Eifyn, Eifion ac Arwel. A da gennym ddweud bod y fenter wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r record Gymreig 'nawr yn nwylo bois Caeathro, hefo'r sgôr o 771,632, a'r arian yn llifo i mewn i helpu cronfa'r gymdeithas. Gobeithir y bydd beth bynnag £500 yn mynd o Gaeathro ar y diwedd. Llongyfarchiadau calonnog i bawb oedd yn ymwneud â'r fenter.

Doniol oedd Deiniol Adael allwedd yn y clo. Chwecch llygad cyfrwys welodd hi. Wel dyna chwi fath gyffro.

**ADFERIAD IECHYD BUAN** i Bryn Griffiths, Delfryn, sydd yn cael profion yn Ysbyty Abergel. Brysfa adre Bryn.

**CRONFA APEL SARA WALLACE EDWARDS:** Lansiwyd y gronfa uchod yn diweddar trwy garedigrwydd tad a mab o Lerpwl. Clywodd Mr Michael Murray am anffawd Sara, ac oherwydd iddo gael salwch tebyg ychydig o flynyddoedd yn ôl, penderfynodd y buasai'n hoffi ei helpu. Gwnaeth hyn trwy ymgymeryd â'r dasg o reidio beic tandem gyda'i fab Lee, 14 oed, o Lerpwl i Land's End ac yn ôl. Noddwyd y daith hon gan obeithio y gellir helpu Sara i wireddu ei gobeithion o fod yn feddyg. Erbyn hyn mae'r daith wedi ei chwblhau yn llwyddiannus. Ar ran Sara a'i theulu, dymuna Mr a Mrs Eric Roberts, Gerallt, (y trysorydd a'r ysgrifennydd) ddiolch o galon i bawb sydd wedi noddi ac i'r unigolion sydd wedi gyrru cyfraniadau. dyddiad cau yr apêl yw Medi 30ain.



Mae Lerpwl yn ffarwelio â Michael a Lee Murray. Yn y cefndir mae Sara a lluo o'i chefnogwyr — o Lerpwl ac o Gaeathro.

## "NA!" MEDDAI POBL BRYNREFAIL

Mewn cyfarfod swnllyd ym Mrynrefail nos Iau, Awst 27 penderfynodd pobl y pentref bron yn unfrydol i sefyll yn gadarn yn erbyn cynlluniau'r Cwmni Mountain Ventures Ltd., i ddymchwel rhan o'r hen ysgol ac adeiladu Canolfan gweithgareddau awyr agored newydd ar y safle. Cynhaliwyd y cyfarfod yn festri'r Capel ac roedd y lle dan ei sang.

Amlinellodd y pensaer a chadeirydd y noson Gwilym Evans, fwradau'r cwmni ac ymhelaethodd Mr Jim Lyons ar ei sylwadau. Byddai'r adeilad newydd, meddai,

yn cynnwys 90 gwely a buasai lle o fewn y ffiniau i 50 o wersyllwyr.

Mynegodd nifer o'r pentrefwyr eu pryder ynglŷn â dod a chynifer o bobl ifanc i'r pentref yn enwedig o ystyried profiad y gorffennol. Daeth beirniadaeth hallt, o sawl cyfeiriad, ar y ffordd y mae Mountain Ventures Ltd., yn gweinyddu y ganoilfan sydd eisoes yn bodoli ym Mrynrefail. Pwysleisiwyd "diffyg proffesiynoldeb" y cwmni gan bobl brofiadol ym maes gweithgareddau awyr agored a chafwyd nifer o gwynion, ynghyd ag enghreifftiau o anallu gweinyddwyr y ganolfan i reoli y bobl ifanc afreolus yn eu gofal.

Sylweddolai Jim Lyons fod teimladau hynod o gryf yn erbyn cynlluniau ei gwmni ac ar ddiwedd y cyfarfod apeliodd am syniadau gan y pentrefwyr ar gyfer yr hen ysgol.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

**MODURDY DOLYDD**  
**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**



# AGOR YSTAFELLOEDD NEWID



Roedd Dydd Sadwrn, Gorffennaf 25 yn ddiwrnod hanesyddol yn hanes Clwb Pêldroed Llanrug. Agorwyd yr ystafelloedd newid newydd yn swyddogol gan Dafydd Wigley A.S. I ddathlu'r achlysur chwaraewyd gêm rhwng

timau dan 12 oed Llanrug a Bontnewydd. Y tîm cartref oedd yn fuddugol — er mawr siom i'r Aelod Seneddol. Yn y llun mae aelodau'r Pwyllgor a Dafydd Wigley yn sefyll o flaen yr adeilad newydd.

## CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

### DECHRAU RHAGLEN Y GAEAF

Nos Fercher, Medi 16eg, 1987  
am 7.30 pm.

yn Ysgol Gynradd Llanrug

**SGWRS gan  
JOHN ROBERTS WILLIAMS**

Cyfle i ymaelodi am y flwyddyn

#### AR WERTH

Pâr o Gold Sandals  
Size 7 fel newydd £2  
Phone: 871340

## Rhoddion

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£15 Di-enw

£5 Mr a Mrs D Hughes, Llanberis  
Teulu y diweddar Michael Pritchard, Llanberis

£3 Teulu Meillionydd

Anwen ac Aled Hughes

Mr a Mrs Cecil Ireland, Melbourne, Awstralia

Er cof am benblwydd fy ngwraig Hetty Hughes gan Bob, 7 Stryd Siarlot

Mr a Mrs D Williams, Stryd Fawr, Llanberis

Mr a Mrs Hugh Evans, Min y Don, Brynrefail

£2 Mrs Annie Roberts, 2 Rhes Beuno, Bontnewydd.

Sian Wyn Evans, 13 Rhydfadog, Deiniolen

Kevin ac Anwen Jones, Gallt y Foel

Mr a Mrs V Hughes, Beech Bank, Llanberis

Miss Kathleen Jones, Prenteg, Deiniolen

Miss Wendy Rowlands, 17 Rhydfadog, Deiniolen

Mrs John a Mavis Williams, Monawel, 3 Tai Cynfi, Deiniolen

Mr a Mrs Kevin Jones, Gorwel, Gallt y Foel, Deiniolen

Mrs Betty Rees Evans, Coventry Di-enw, Llanrug

Mrs Delia Parry, Llanberis

£1 Miss Jennifer Ellen Jones, 17 Porth y Gogledd, Deiniolen

Miss Donna Jones, Porth y Gogledd

Mrs Rita Williams, Bethel

Di-enw, Bethel

Mrs Alice Ll Thomas, Llanberis

## CARTREF PRESWYL HENOED



**BRON  
ERYRI**

LLANBERIS, Ffôn:  
870142 neu 870391

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffert at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

**Ymholiadu i Mr a Mrs A.W. Hughes  
(perchnogion)**

**neu Mrs. Eirian Mali S.R.N. (Metron)**

**AELWYD GARTREFOL**

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd



**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**

**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg  
Hefyd yn Siop

**FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS**



# CHWARAEON

## PÊLDROED CYNGHRAIR GWYNEDD

Ymunodd 13 o dimau â'r Gynghrair eleni, a gobaith yr holl ardal yw y daw ein timau lleol, sef Llanberis a Llanrug eto i'r brig. Dod yn gyfartal fu hanes y ddau ar y Sadwrn agoriadol, Llanberis 1 - 1 ym Mro Goronwy a 2 - 2 i Llanrug yn Llannerch-y-medd. Emlyn Roberts oedd arwr y Darrans, gyda Dilwyn John Williams yn sgorio'r ddwy dros Llanrug. Mae cryn edrych ymlaen eisoes am y "ddarbi" gyntaf, ar yr 8ed o Fedi ar gae Eithin Duon, Llanrug.

Y naw tim arall yn y Gynghrair yw Llanfairpwll, Harlech, Nefyn, Dyffryn Nantlle, Penrhyn, Hotpoint, Penmachno, Y Normal a'r Brifysgol Bangor.

## LLANBERIS



Dyma'r rhai a arwyddwyd i gynrychioli'r Clwb eleni. Huw Jones a Dafydd R. Griffiths (golgeidwaid); R. John Williams, Iolo Evans, Gareth Pritchard Jones, Iwan Evans (amddiffynwyr); Peter Roberts, John Williams, Gareth W. Jones, Terrence Griffiths a Geraint Williams (canol y cae); gydag Emlyn Roberts, Gareth Bryn Williams, Steven Williams a Derfel Roberts fel ymosodwyr. Ymddengys yn garfan gref dros ben! Y rheolwr yw Iwan Williams.

## PYSGOTA, Adroddiad H.P. Hughes

Yn nhymor Gorffennaf ac Awst, pan fo prinder dŵr yn yr afonydd fel arfer yn amharu ar y nifer o bysgod a ddelir, eleni, oherwydd y galw cyson bu'r helfa yn dra boddhaol.

Bu'r sewin a'r eogiaid yn symud yn gyson i fyny'r Seiont am Lyn Padarn, a bu blynyddoedd er pan ddaliwyd cyfnifer yn ardal Llanberis - bit'nad oes mwy o bysgota amdanynt ar y llyn ei hun.

Codwyd oddeutu wyth sewin y dydd gan rai yn ardal Caernarfon; yn eu plith Howard Jones, Malcolm Owen a John Griffiths, fu'n llwyddiannus ar Lynnoedd Du, Crwn, Mwnci ac Engan, llynnoedd isa'r afon. Y rhain o ddeutu chwe phwys ar gyfartaledd. Codwyd pysgod hyd at pum pwys gan Gerald Morris, Gwynfor Jones ac Alan Ginsberg yn ardal Cwawia, llyn Doctor ac yng nghyffiniau Pont Rhythallt.

Yn rhanau ucha'r afon, o Bontrug i fyny, y daliwyd y mwyafrif o eogiaid. Fe gododd Adrian

Roberts o Seion ddau mewn deuddydd o dan Gapel Nazareth, un yn saith pwys a'r llall yn chwe phwys. 'Roedd y ddau a ddaliwyd gan Donald Pritchard mewn diwrnod uwchben Pontrug yn saith a naw pwys. Cododd Gwynfor Jones bedwar yn wyth pwys yr un yn ardal Llanrug, ac yno hefyd Merfyn Harris dri mewn diwrnod.

Mae nifer fawr o bysgod i'w gweld yn y Llyfni, ond am ryw reswm maent yn araf iawn yn derbyn yr abwyd, yn enwedig rhwng bont Pontllyfni a'r môr.

## MWY O LWYDDIANT I PAUL


Bu Paul Grant o Lanrug yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yng Nghwmbran ar y Sadwrn cyntaf o Orffennaf; a daeth yn ail yn y räs 1500m. dros glwyd a ffôs.

O galyniad, fe'i ddewiswyd i gynrychioli Ysgolion Cymru yn yr un räs yn Mhencampwriaethau Prydain, a gyhaliwyd yn yr Alban yn ystod y gwyliau. Daeth yn 5ed yno, yn ei amser gorau, sef 4 munud 41 eiliaad.

Yna, ar Awst 20fed, bu'n cynrychioli Cymru eto ym mhencampwriaethau rhedeg mynyddoedd (fell running) y byd yn y Swisdir, gan ddod yn 20fed allan o 80 o redwyr.

Fe'i dewiswyd hefyd i gynrychioli

Sir Gwynedd yn y räs 3000 m. dan 17 oed yn y pencampwriaethau rhyng-sirol yng Nghwmbran ar Awst 31ain.



## LLANRUG



Bu Mike Kennedy yntau, Rheolwr Llanrug, yn ddyfal gasglu carfan gref o'i gwmpas, ond, â'r tymor ar fin dechrau, fe benderfynodd gryn hanner dwsin ohonynt ymadael ac arwyddo dros glybiau eraill. Y garfan ar hyn o bryd felly yw Iwan Roberts, Wayne Philipps, Selwyn Alsopp, Dilwyn Roberts, Hefin Pritchard, John Williams, Dafydd Phillips, Ken Jones, Adrian Wakeham, Hefin Williams a Mike Kennedy ei hun.

## CYNGHRAIR SAIN

Er i Fethel, yn anffodus orfod rhoi'r ffidil yn y to oherwydd diffyg cefnogaeth, er hynny fe gynrychiolir yr ardal yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch gan ddau dim, sef Eilwyr Llanberis a Llanrug.

Gobeithir cynnwys manylion am y timau yn y rhifyn nesaf o'r Eco, a bwriedir hefyd ganolbwyntio ar y lluo o dimau dan 12, dan 14 a dan 16, o bentrefi'r ardal yn y dyfodol agos.

## TLWS ECO'R WYDDFA

Cynhaliwyd y gemau Nos Wener, Gorffennaf 10. Er nad oedd y tywydd yn rhy garedig, mentrodd 6 o dimau 7 bob ochr i'r gystadleuaeth ar gae Eithin Duon, Llanrug. Trefnwyd y timau i ddwy gynghrair gydag enillwyr y naill yn chwarae yn erbyn enillwyr y llall am y Tlws.

Dyma'r canlyniadau:-

|                       |                    |
|-----------------------|--------------------|
| <b>Cynghrair A</b>    |                    |
| Llanberis 1           | Llanrug (Gwyrdd) 5 |
| Cwm-y-glo 0           | Llanrug (Gwyrdd) 5 |
| Llanberis 4           | Cwm-y-glo 0        |
| <b>Cynghrair B</b>    |                    |
| Deiniolen 3           | Llanrug (Coch) 0   |
| Waunfawr 0            | Deiniolen 3        |
| Llanrug (Coch) 3      | Waunfawr 0         |
| <b>Rownd Derfynol</b> |                    |
| Llanrug (Gwyrdd) 1    | Deiniolen 0        |



## NOFIWR O FRI

Mae un o hogiau'r ardal, sef Darren Gwyn Lamb o Benisarwaun yn brysur gwneud enw iddo ei hun fel nofiwr â dyfodol disglair iddo. Pymtheg oed yw Darren, ac ar Orffennaf 25ain bu'n fuddugol yn y räs dros 1000 m. i ieuenctid ar Lyn Padarn; ef hefyd gododd y wobwr am y gorau o'r dynion lleol.

Mae'n aelod o glwb nofio Caernarfon, ac yn cynrychioli Caernarfon a Bangor yn y dull rhydd mewn tim sy'n aelod o gynghrair "Speedo". Mae hyn yn golygu teithio cyn belled â Phreston a Manceinion i gystadlu, a daethant yn 9fed allan o ddeunaw tim.

Yng Nghorffennaf hefyd fe'i ddychafwyd gan y Gymdeithas Nofiwyr Amatur, a'i benodi yn hyfforddwr â'r hawl ganddo i ofalu am y rhai sy'n dysgu nofio yn y clybiau.

Da iawn Darren, dal ati!

